



Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i  
Addysg

---

# **YMCHWIL AR FRECWASTAU YSGOL YNG NGHYMURU**

**Adroddiad Terfynol**

**G JONES  
R POWELL  
R SMITH  
A REAKES**

**Gorffennaf 2006**

## CYNNWYS

	<b>tudalen</b>
<b>Diolchiadau</b>	<b>i</b>
<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>2. Nod a chynllun yr ymchwil</b>	<b>3</b>
2.1 Nodau'r ymchwil	3
2.2 Cynllun yr ymchwil	3
<b>3. Darparu brecwast yn yr ysgol: ymchwil presennol</b>	<b>5</b>
3.1 Cyflwyniad	5
3.2 Gwerthusiadau o'r ddarpariaeth frechwast	6
3.3 Manteision darparu brecwast	6
3.4 Manteision iechyd a maeth darpariaeth frechwast	7
3.5 Manteision addysgol darpariaeth frechwast	8
3.6 Effaith darpariaeth frechwast ar rieni a bywyd teuluol	10
3.7 Heriau i'r ddarpariaeth frechwast	11
3.8 Gweithredu clybiau brecwast o ddydd i ddydd	13
3.9 Lleoliad clybiau brecwast	14
3.10 Y sawl sy'n mynychu clybiau brecwast	14
3.11 Staffio clybiau brecwast	15
3.12 Cyllido clybiau brecwast	16
3.13 Categoriâu clybiau brecwast	17
3.14 Brecwastau ysgol am ddim yng Nghymru	17
<b>4. Menter brecwastau ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru</b>	<b>24</b>
4.1 Persbectifau ar y fenter brecwastau ysgol	24
4.2 Cysylltiadau â mentrau eraill	25
4.3 Paratoi'r fenter	26
4.4 Cyflwyno'r fenter	29
4.5 Staffio'r fenter	34
4.6 Cyllido'r fenter	40
4.7 Cymharu â chyllid ar gyfer prydau ysgol	42
4.8 Y nifer sy'n dewis brecwastau a'u heffaith	42
4.9 Arfer da ym menter y Cynulliad Cenedlaethol	48
4.10 Ehangu'r fenter yn y dyfodol	50
<b>5. Darpariaeth brecwastau ysgol nas cyllidir gan fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru</b>	<b>55</b>
5.1 Rhesymau dros sefydlu'r clwb brecwast	58
5.2 Cysylltiadau â mentrau ysgol eraill	58
5.3 Taliadau, cyllido a chyfleusterau	59
5.4 Staffio	60
5.5 Y brecwast a ddarperir	61
5.6 Cefndir teuluol y disgyblion sy'n cymryd rhan	61

5.7	Hyrwyddo	62
5.8	Effaith	62
5.9	Datblygiad yn y dyfodol	63
5.10	Arfer da	64
<b>6.</b>	<b>Casgliadau</b>	<b>67</b>
6.1	Manteision brechwastau ysgol	67
6.2	Nodweddion allweddol cyflwyno effeithiol ym menter Llywodraeth Cynulliad Cymru	67
6.3	Heriau i gyflwyno menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yn effeithiol	68
6.4	Darpariaeth frechwast ac eithrio darpariaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru	69
6.5	Ehangu menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol	71
	<b>Cyfeiriadau</b>	<b>73</b>



## Diolchiadau

Hoffai tîm ymchwil SCYA ddiolch i'r staff yn yr holl ALLau, yr ysgolion a'r lleoliadau eraill a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil. Hoffai'r tîm fynegi eu diolch hefyd i Janine Hale a Ruth Conway am eu cyngor a'u cefnogaeth werthfawr yn ystod y cyfnod ymchwil.

Mae diolch yn ddyledus hefyd i Lowri Randell a Kate Gibbs am eu cefnogaeth weinyddol.



# 1. Cyflwyniad

Bu clybiau brecwast mewn ysgolion yn cael eu cynnal ar sail ad-hoc ar draws y DU ers peth amser. Dywed Y Sefydliad Maeth Prydeinig (2005):

*School breakfast clubs serve food to children who arrive early at school, before formal lessons begin. The way in which the clubs operate depends on the individual circumstances of the school... and the emphasis of different clubs varies considerably. For example, some breakfast clubs have objectives of integrating study or welfare support, while others focus on providing breakfast and a time for informal interaction between children and school staff.*

Priodolwyd amrywiol fanteision i'r clybiau hyn, yn cynnwys eu heffaith ar ddeiet, lefelau canolbwyntio, ymddygiad ac ymwneud plant yn yr ysgol.

Gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfyniad polisi sylweddol mewn perthynas â darparu brecwast mewn ysgolion yn 2003 pan gyhoeddwyd ymroddiad i gyllido cyfle i'r holl ddisgyblion ysgol gynradd gael brecwast ysgol am ddim yn ystod oes y Cynulliad hwnnw.

Mae'r fenter brecwast am ddim yn rhan o Her Iechyd Cymru Llywodraeth y Cynulliad sy'n pennu y dylai addysg

*weithredu ym mhob rhan o'r meithrin i addysg bellach/uwch i annog plant a phobl ifanc i ofalu am eu hiechyd a'i wella;*

(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004a)

Gan roi sylwadau ar y fenter brecwast, dywedodd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes:

*Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod brecwast iach yn gysylltiedig â gwell iechyd, canolbwyntio ac ymddygiad mewn ysgolion. Rydym am roi cychwyn da i bob plentyn yng*

*Nghymru - a dyna'n union y mae'r fenter gyffrous hon yn ei wneud.*

(Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003)

Y nod oedd treialu cam cyntaf y fenter o fis Medi 2004 mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf mewn naw ALL:

Sir Benfro	Castell-nedd Port Talbot
Sir Gaerfyrddin	Caerffili
Merthyr Tudful	Caerdydd
Sir Fôn	Wrecsam
Sir Ddinbych	

Rhagwelwyd y byddai hyd at 11,000 o blant yn cael y cyfle i gael brecwast yn yr ysgol o ganlyniad i'r peilot, fyddai'n costio £1.5 miliwn yn 2004-2005. Gobeithiwyd y byddai darpariaeth frecwast yn cael ei hehangu i gynnwys pob ysgol gynradd yng Nghymru erbyn Ionawr 2007.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ddarparu brecwastau mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r bennod nesaf yn amlinellu nodau'r ymchwil a'r fethodoleg a fabwysiadwyd. Mae Pennod 3 yn cyflwyno canlyniadau adolygiad o'r llenyddiaeth allweddol ar y pwnc. Mae Pennod 4 yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd yn yr ysgolion oedd yn cyflwyno brecwastau fel rhan o fenter Llywodraeth y Cynulliad ac mae Pennod 5 yn archwilio arfer mewn ysgolion eraill lle y darparwyd brecwastau.



## 2. Nod a chynllun yr ymchwil

Mae'r bennod hon yn amlinellu nodau ac amcanion yr ymchwil a'r fethodoleg a ddefnyddir.

### 2.1 Nodau'r ymchwil

Nodau'r prosiect ymchwil oedd:

- disgrifio'r arfer mewn ysgolion gyda chynlluniau brechwast sefydledig
- disgrifio arfer sy'n datblygu yn yr ysgolion menter frechwast
- caffael gwybodaeth ansoddol yn bennaf am effaith y trefniadau ar bresenoldeb, ymddygiad a dysgu disgyblion a'u hagwedd tuag at fwyta'n iach
- nodi'r hyn a ystyrir yn arfer da yn nhrefniadau'r fenter frechwast
- nodi unrhyw broblemau sy'n ymddangos yn natblygiad rheoli'r fenter frechwast
- nodi materion fydd yn hysbysu ehangu'r rhaglen
- cynnig argymhellion i hysbysu datblygiad yn y dyfodol.

### 2.2 Cynllun yr ymchwil

Defnyddiodd tîm y prosiect gyfuniad o ddulliau ymchwil, yn cynnwys adolygiad o ddogfennaeth desg-seiliedig, a chyfweliadau wyneb yn wyneb ansoddol.

Dadansoddwyd dogfennaeth berthnasol er mwyn adolygu ymchwil diweddar ar faterion cynlluniau brechwast, yn cynnwys tystiolaeth gan wledydd/rhanbarthau eraill o fewn y DU.

Bu cyrff â diddordeb hefyd yn cymryd rhan yn yr ymchwil drwy gyfweliadau ffôn. Roedd y rhain yn cynnwys arbenigwyr maeth, nyrsys a deintyddion ysgol, Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymdeithas y Grwpiau Chwarae, Clybiau Plant Cymru ac eraill.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â sampl o saith ALI ac wyth ysgol oedd yn rhan o raglen beilot Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod 2004-2005 a gyda phedwar o glybiau brechwast.

Roedd pump o'r ysgolion cynradd wedi dechrau cyflwyno'r ddarpariaeth frechwast yn ystod tymor yr hydref, 2004, tra y dechreuodd eraill yn hwyrach yn y tymor.

Roedd y plant gafodd gyfweiliad yn yr ysgolion peilot yn y grwpiau blwyddyn canlynol:

Blwyddyn 1 2

Blwyddyn 2 8

Blwyddyn 3 9

Blwyddyn 4 15

Blwyddyn 5 12

Blwyddyn 6 5

Roedd y grŵp sampl yn rhy fach i allu llunio canlyniadau oedd yn arwyddocaol yn ystadegol ynghylch i ba raddau yr oedd disgyblion wedi bwyta brechwast cyn ei fod ar gael yn yr ysgol. Fodd bynnag, ymgwymerir â dadansoddiad ystadegol o effaith y cynllun brechwastau ysgol ar bresenoldeb yn yr ysgol pan fydd y wybodaeth honno ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyflwynir adolygiad o ddogfennaeth allweddol ynghylch darparu brechwastau mewn ysgolion yn y bennod nesaf.

### **3. Darparu brecwast yn yr ysgol: ymchwil presennol**

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o ddogfennaeth allweddol, yn cynnwys astudiaethau academaidd a chyhoeddiadau swyddogol, yn ymwneud â darparu brecwastau mewn ysgolion.

#### **3.1 Cyflwyniad**

Tarddodd y cysyniad o gael darpariaeth frecwast mewn ysgolion yn yr Unol Daleithiau yn y 1960au, a daeth yn fwyfwy cyffredin yno o ganlyniad i'r Rhaglen Brecwast Ysgol, a sefydlwyd ym 1966 i ddarparu cyllid ffederal i gynorthwyo ysgolion oedd yn gweini brecwast i blant oedd yn anghenus o ran maeth mewn ardaloedd tlawd (Shaw, 1988). Mae cyflwyno rhaglenni brecwast yn y DU yn ddatblygiad mwy diweddar (Shemilt *et al.*, 2003).

Nid yw darparu prydau ysgol mewn ysgolion i ddisgyblion yn ffenomen newydd. Er enghraifft, bu'n elfen o'r system addysg yn Lloegr ers 1906, ond tan hyn fe'i cyfyngwyd i ddarparu bwyd amser cinio yn unig. Tan yn ddiweddar, ychydig yn unig o sylw y mae'r cysyniad o ddarpariaeth brecwastau ysgol wedi cael yn y DU ac mae datblygiadau wedi bod araf (Simpson, 2001). Fodd bynnag, o ganlyniad i sawl ffactor fe ddenodd darparu brecwast i ddisgyblion ysgol ddiddordeb yn y DU yn y 1990au. Roedd canfyddiadau ymchwil positif o werthusiadau o ddarpariaeth frecwast mewn gwledydd yr oeddent eisoes wedi datblygu rhaglennu brecwast i ddisgyblion, fel yr Unol Daleithiau, Periw a Jamaica yn gatalydd ar gyfer newid yn y DU (Simpson, 2001; Ani a Grantham-McGregor, 1999).

Ochr yn ochr â manteision rhaglenni o'r fath sy'n ymddangos, fe roddodd dystiolaeth yn cysylltu amddifadedd materol a ddioddefwyd gan blant â iechyd gwael (Simpson, 2001), a'r gydnabyddiaeth y gallai rhaglenni brecwast gynorthwyo wrth gwrdd ag ystod eang o anghenion

hwb pellach i'r datblygiad a'r gefnogaeth ar gyfer darpariaeth o'r fath. Roedd y datblygiadau cychwynnol o safbwynt darpariaeth frecwast yn y DU yn canolbwyntio ar glybiau brechwast y mae Donovan a Street (1999) yn awgrymu: *'have attracted widespread interest in the 1990's because they can collectively meet: children's health needs by providing a balanced meal at the beginning of the day; educational needs in terms of ensuring children start the day on time, feeling well, nourished and settled; and the childcare needs of children and their families through the provision of a safe, supervised environment before school starts.'* Dywed Shemilt *et al.* (2003) y gellir gweld datblygu clybiau brechwast fel *'part of the broader governmental child sensitive family policy approach in the late 1990's to reduce inequalities between children whilst supporting families in general.'*

### **3.2 Gwerthusiadau o'r ddarpariaeth frecwast**

Mae gwerthusiadau o glybiau brechwast, fel a nodwyd uchod, er yn bennaf o wledydd fel yr Unol Daleithiau (Simpson, 2001) a Pheriw a Jamaica (Ani a Grantham-McGregor, 1999), ar y cyfan yn bositif iawn ac yn amlygu ystod o fanteision. Methodd peth o'r ymchwil a gynhaliwyd ym Mhrydain (UEA), 2002) â nodi tystiolaeth feintiol galed ond cafodd bod tystiolaeth ansoddol yn cynnig darlun positif cyson. Mae ymchwil wedi nodi hefyd y gall sefydlu a chynnal clybiau brechwast gynnig nifer o heriau.

### **3.3 Manteision darparu brechwast**

Cafwyd cefnogaeth sylfaenol i'r cysyniad o glybiau brechwast oherwydd eu potensial i fynd i'r afael ag ystod o anghenion, yn cynnwys iechyd, addysg, rhieni a bywyd teuluol (BNF, 2005; Street a Kenway, 1999). Dywed Simpson (2001); *'the value of school breakfast clubs is considered from the health, childcare and family support, and education perspectives and a compelling argument is put for them'*. Awgrymir y gallai peidio â bwyta brechwast gael effeithiau iechyd andwyol yn y tymor hir, ac effeithiau addysgol a chymdeithasol yn y tymor byr (Lucas, 2003).

### 3.4 Manteision iechyd a maeth darpariaeth frecwast

Mae ymchwil wedi dangos y gyfran o ddisgyblion uwchradd nad ydynt yn bwyta brecwast. Yn ôl astudiaeth y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (2000), mae 17 y cant o blant ysgol ym Mhrydain yn gadael y tŷ yn y bore heb fwyta unrhyw beth, tra bod Balding (2000) yn dweud bod brecwast yn bryd arbennig o gyffredin i'w golli. Mewn arolwg o ddisgyblion Blwyddyn 6, adroddodd pump y cant nad oeddent yn bwyta unrhyw beth i frecwast, roedd tri y cant yn cael diod yn unig, ac roedd rhwng naw y cant a thri ar ddeg y cant yn bwyta creision neu siocled i frecwast. Mewn arolwg o ferched Blwyddyn 10, adroddodd fwy na phumed ran ohonynt (21 y cant) nad oeddent yn bwyta brecwast. Mae'r Grŵp Gweithredu Tlodi Plant wedi amcangyfrif nad yw 30 y cant o blant yn cael pryd wedi'i goginio ar ôl mynd adref ac i rai pryd ysgol yw'r unig 'bryd gwirioneddol' y maent yn ei gael bob dydd (NPI, 2000)

Mae'r rhagolygon iechyd hir dymor gwael o ganlyniad i ddeiet anghybwys plant wedi eu cofnodi (Donovan a Street, 1999). Awgrymir y gallu clybiau brecwast fynd i'r afael â'r anghenion iechyd hyn drwy gyfrannu at anghenion maeth plant o safbwynt deiet cytbwys drwy ddarparu pryd ar ddechrau'r dydd (Street a Kenway, 1999). Mae gan glybiau brecwast y potensial i gael effaith sylweddol ar iechyd a lles plant drwy ddarparu brecwast maethlon neu ategi eu deiet bob dydd gyda ffrwyth (Lucas, 2003). Codwyd pryderon gan ymchwil a wnaed gan UEA (2002) ynghylch gwerth maeth peth o'r bwyd oedd yn cael ei gynnig mewn clybiau brecwast. Nodwyd hefyd yr her o gydbwysu'r angen i ddenu disgyblion i glybiau gydag ymrwymiad i ddarparu bwyd oedd yn faethlon. Yn benodol, cydnabuwyd y gallai darparu bwyd penodol olygu bod clybiau yn llai deniadol i rai plant. Roedd hyn wedi arwain at rai clybiau yn cynnig bwydydd 'poblogaidd'. Fodd bynnag, nododd UEA (2002) hefyd fodolaeth '*successful strategies for ensuring that healthier options were provided without loss of "attractiveness"*'. Un enghraifft o'r arfer hon oedd clwb a oedd wedi '*placed fruit cut into small pieces in bowls on each table. Staff were initially surprised at the relatively high take-up and described how some children had actually sampled fruit for the first time. It was also found that some parents felt*

*that their children had become more receptive to new and more diverse types of food as a result of attending clubs’.*

Adroddodd UEA (2002) fod clybiau wedi atgyfnerthu pwysigrwydd bwyta brechwast a bod disgyblion a oedd wedi cymryd rhan yn y clybiau hynny wedi lledaenu negeseuon am iechyd a maeth mewn mannau eraill, er enghraifft yn eu cartrefi eu hunain.

Gall clybiau brechwast hefyd gynnig cyfle i addysgu plant am fwydydd iach, pwysigrwydd bwyta'n iach a hylendid bwyd, yn ogystal â darparu gwybodaeth ar ymddygiad nad yw'n iach fel ysmegu ac yfed (Street a Kenway, 1999).

### **3.5 Manteision addysgol darpariaeth frechwast**

Mae'r Sefydliad Polisi Newydd (NPI) yn awgrymu bod anawsterau addysgol yn codi'n aml o'r '*erratic attendance and poor concentration and behaviour in school*' a ddangosir gan nifer sylweddol o blant o flynyddoedd cyntaf yr ysgol gynradd (Donovan a Street, 1999). Mae nifer o astudiaethau yn nodi bod gan glybiau brechwast y potensial i fynd i'r afael â'r materion hyn a gwella profiad addysgol disgyblion, yn enwedig yn nhermau perfformiad yn y dosbarth, presenoldeb yn yr ysgol a phrydlondeb (BNF, 2005; Teachernet, 2005b; NPI, 2000).

Yn nhermau perfformiad yn y dosbarth, awgryma Street a Kenway (1999) fod clybiau brechwast yn cynnig math o ofal cyn-ysgol mewn awyrgylch anffurfiol sy'n helpu'r plant i ddechrau'r diwrnod ysgol yn brydlon, yn dawel ac yn barod i ddysgu, yn hytrach na bod yr angen am fwyd yn tarfu ar eu canolbwyntio. Cefnogwyd eu casgliad gan UEA (2002) oedd yn dweud: '*There were felt to be close associations between mental alertness and reduced preoccupation with feelings of tiredness or hunger, a more social, settled transition into the school day, or the development of more positive attitudes towards the school*'. Cafodd astudiaethau gan yr NPI (2000) a UEA (2002) fod mynychu clybiau o'r fath yn gwneud i'r plant ymddangos yn fwy sefydlog, eu bod yn talu sylw'n well ac wedi'u cymell i ddysgu (BNF, 2005) a'i fod yn ymddangos fel petai'n '*smooth the transition between home and*

*school'* (UEA, 2002). Nododd ymchwil ar ddisgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol fod effeithiau positif sylweddol i ddarparu brecwast. Roedd y rhain yn cynnwys cynyddu ymddygiad da wrth gyflawni tasgau (Bro *et al.*, 1994, 1996), esgor ar ostyngiad mewn problemau ymddygiadol (Terry a Kerry, 2000) a helpu'r plant i ddechrau'r dydd mewn hwyliau da, rhywbeth y teimlwyd oedd yn cynnig mantais addysgol gyffredinol (Watson a Marr, 2003). Fodd bynnag, cafodd UEA (2002) yr adroddwyd fod ymddygiad wedi gwaethygu mewn rhai ysgolion, oherwydd i'r plant ddod yn fwy egnïol.

Mae ymchwil yn awgrymu hefyd bod clybiau brecwast yn cael effaith bositif ar bresenoldeb. Mewn gwerthusiad o glybiau brecwast o fewn Parth Gweithredu Addysg yn Middlesbrough (Simpson, 2001) cafwyd bod grwpiau o ddisgyblion oedd yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn clybiau brecwast yn gwella'u presenoldeb ar gyfradd gyflymach na'r rhai nad oeddent yn eu mynychu. Roedd clybiau yn ffordd o sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn gynt a gyda llai o aflonyddwch (UEA, 2002) a thrwy fynychu'r ysgol yn amlach, roedd disgyblion mewn sefyllfa well i fanteisio ar y cyfleoedd oedd ar gael iddynt (Simpson, 2001). Gallai'r clybiau hefyd gynnig manau tawel ar gyfer gwaith cartref a'r cyfle ar gyfer cefnogaeth ddysgu mewn grwpiau bach (Street a Kenway, 1999).

Ochr yn ochr â chwrdd ag anghenion addysgol, amlygwyd y potensial i glybiau brecwast fynd i'r afael ag anghenion dysgu cymdeithasol. Mae ymchwil seicolegol wedi amlygu y gall perthnasau cysylltiad sefydlog, strwythurau a threfn o fewn rhwydwaith anffurfiol fod yn effeithiol wrth ysgogi adnoddau o fewn plant. (Gilligan, 1999; Marsh a Crow, 1998). Mae Street a Kenway (1999) yn awgrymu y gall clybiau brecwast gynnig fforwm i blant ac oedolion ryngweithio yn gymdeithasol, creu cyfleoedd ar gyfer sgwrsio, meithrin, rhannu cyfrifoldebau a chyfle i blant elwa o ddelfrydau ymddwyn positif sy'n oedolion. Weithiau roedd y berthynas rhwng disgyblion ac oedolion yn gwella o ganlyniad i gwrdd â'i gilydd yn amgylchedd mwy anffurfiol y clwb brecwast (UEA, 2002). Mae'r syniad bod rhoi a rhannu bwyd o fewn cyd-destun grwpiau meithrin yn helpu wrth ddatblygu perthynas llawn ymddiried rhwng oedolion a phlant hefyd wedi'i gydnabod (Bennathan and Boxall, 2000). Ystyriwyd clybiau brecwast mewn ffordd bositif fel fforwm i

ddatblygu ac arfer sgiliau cymdeithasol, hyd yn oed os nad oedd manteision o safbwynt gwaith ac ymddygiad yn amlwg iawn (Watson a Marr, 2003).

Gall clybiau brechwast hefyd gynnig cyfleoedd i adeiladu hyder a hunan-barch plant drwy ddatblygu ethos gofalgwr cyffredinol ymysg grwpiau cyfoedion a allai gyfrannu'n rhannol at wella profiadau dysgu drwy fynd i'r afael â phroblemau fel bwlio mewn ysgolion, triwantiaeth ac absenoldebau heb ganiatâd (Street a Kenway, 1999). Cafodd ymchwil yn cynnwys disgyblion gydag anawsterau ymddygiadol emosiynol fod darpariaeth clybiau brechwast wedi helpu i wella ethos positif o fewn yr ysgolion oherwydd bu'r plant yn ymwneud â chynllunio'r clwb ac roeddent wedi derbyn a pharchu'r rheolau fel bod yn gwrtais i'w gilydd (Watson a Marr, 2003).

### **3.6 Effaith darpariaeth frechwast ar rieni a bywyd teuluol**

Cofnodwyd yr effeithiau positif y gallai clybiau brechwast eu cael ar blant a theuluoedd oherwydd eu gallu i gefnogi'r uned deuluol yn gymdeithasol ac yn economaidd (Donovan a Street, 1999). Yn ystod y cyfnod hwnnw o amser cyn ysgol gall nifer o anawsterau godi i rieni y gallai fod angen iddynt deithio i'r gwaith neu chwilio am waith. Fe awgrymwyd, o ganlyniad i hyn, fod ffenomen gynyddol o blant 'allwedd drws' sy'n profi diffyg goruchwyliaeth gan oedolion cyn mynd i'r ysgol (Donovan a Street, 1999). Cafodd UEA (2002) fod y clybiau yn ffurf ychwanegol ar gefnogaeth i rieni oedd yn gweithio, yn astudio neu'n ceisio cyflogaeth a'u bod yn cael eu hystyried yn amgylcheddau diogel a sefydlog (UEA, 2002). Gall clybiau brechwast gynnig gofal wedi'i oruchwylio gan oedolion yn ystod y cyfnod cyn ysgol lle nad yw'n bosib i rieni fod yn bresennol (Street a Kenway, 1999). Yn ogystal, mae ymchwil yn nodi y gall clybiau brechwast helpu i ysgafnhau'r straen yn nhrefn foreol teuluoedd, yn enwedig ymysg teuluoedd gyda sawl plentyn o oed ysgol a rhieni sengl (Shemilt *et al.*, 2003).

Yn ôl yr NPI (2000) mae bron i draean o blant yn y DU yn byw mewn tloidi. Gall amgylchiadau ariannol o'r fath gael goblygiadau difrifol yn nhermau swm yr arian y gall teuluoedd ei wario ar fwyd. Gall clybiau brechwast leddfyr pryder hwn i deuluoedd drwy ddarparu brechwastau



iach i blant. Cafodd UEA (2002) fod llawer o'r disgyblion oedd yn mynychu yn dod o deuluoedd lle'r oedd rhiant yn nodi lefelau straen 'amlwg' neu 'uchel' ac '*Overall, there was evidence that school breakfast clubs provide a service capable of reaching families likely to be most in need of support including some families at risk of or experiencing social exclusion.*'

### **3.7 Heriau i'r ddarpariaeth frechwast**

Mae ymchwil yn awgrymu mai'r her fwyaf i'r ddarpariaeth frechwast mewn ysgolion yw cyllid. Amlygwyd dichonolrwydd a sefydlogrwydd ariannol fel ffactorau pwysig y gallent gyfyngu ar ddatblygiad clybiau brecwast (Street a Kenway, 1999). Mewn rhai achosion roedd gwirfoddolwyr yn cyfrannu'n helaeth at redeg clybiau brecwast ond cydnabuwyd nad oedd dibynnu ar y gefnogaeth hon yn ymagwedd gynaliadwy (UEA, 2002). Golyga hyn efallai y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd am glybiau brecwast pan ddaw'r cyllid gwreiddiol i ben. Gallai cyfyng-gyngor o safbwynt blaenoriaethu cyllideb yr ysgol olygu bod clybiau brecwast yn cael eu hanghofio (Teachernet, 2005a). Nododd gwerthusiad cenedlaethol o gynllun peilot clybiau brecwast yn Lloegr a gynhaliwyd gan yr Adran Iechyd ym 1999 fod sefydlogrwydd clybiau o'r fath yn fater o bryder mawr i'r holl rhanddeiliaid ac mewn rhai achosion cyflwynwyd taliadau i ategi'r mewnbwn cyllid cychwynnol neu i ddarparu ffynhonnell gyllido pan ddaeth y cyllid cychwynnol i ben. Fodd bynnag, ystyriwyd bod hyd yn oed taliadau bach yn rhwystr i blant fynychu (Shemilt *et al.*, 2003). Ceir tystiolaeth hefyd i awgrymu hyd yn oed pan godwyd ffioedd am fynychu'r clybiau, roedd y cyllid yn parhau yn fater o bryder (Street a Kenway, 1999).

Gallai cyllidebau cyfyngedig ar gyfer rhaglenni brecwast effeithio ar ba fath o ddarpariaeth frechwast y gellir ei chynnig. Er enghraifft, gallai'r bwyd a gynigir gael ei gyfyngu, yn enwedig mewn perthynas â bwydydd mwy darfodus fel ffrwythau ffres. Gallai fod nifer y lleoedd ar gael i ddisgyblion a theuluoedd yn gyfyngedig hefyd (Street a Kenway, 1999). Cafodd Harrop a Palmer (2002) nad oedd brecwastau yn y clybiau yn faethlon ac yn gytbwys bob amser, a oedd weithiau o

ganlyniad i gyllidebau cyfyngedig. Fodd bynnag, bu'n rhaid i rai clybiau fabwysiadu athroniaeth *'rhowch yr hyn y maent yn ei ddymuno iddynt'* hefyd i sicrhau bod nifer dda yn dewis bwyta'r brechwastau. Roedd opsiynau iach yn aml yn golygu mai nifer isel o ddisgyblion oedd yn dewis darpariaeth o'r fath.

Staffio oedd y brif gost cysylltiedig â chyflwyno clybiau brechwast (Street a Kenway, 1999) (Teachernet, 2005a). Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion cynradd lle'r oedd y cymarebau goruchwylio yn uwch na mewn ysgolion uwchradd (UEA, 2002). Amlygwyd recriwtio a chadw staff hefyd fel pryder gwirioneddol (Street a Kenway, 1999).

Ceir tystiolaeth arall sy'n awgrymu er bod gan glybiau brechwast y potensial i fynd i'r afael ag ystod o anghenion addysgol a chymdeithasol disgyblion, nid oedd anghenion o'r fath yn cael eu cwrdd yn effeithiol bob amser. Cafodd astudiaeth a gynhaliwyd gan Street a Kenway (1999) fod problemau parhaus gyda phlant yn cyrraedd yn gynnar a heb gael eu goruchwylio ar yr iard chwarae yn yr ysgol, neu'n colli brechwast, hyd yn oed pan oedd y clybiau yn cael eu cynnal. Roedd y plant hynny â materion sylweddol ynghylch prydlondeb a phresenoldeb ar y cyfan yn methu ag elwa o gyflwyno clybiau oherwydd eu bod yn cyrraedd yn rhy hwyr neu ddim o gwbl. Ychydig iawn o reolaeth hefyd sydd gan glybiau brechwast dros 'ymddygiad pigo bwyd' [bwyta byrbrydau braster uchel drwy gydol y dydd] ar y ffordd i'r ysgol. Cafodd astudiaeth bellach fod staff yn pryderu nad oedd y ddarpariaeth frechwast yn cyrraedd y rheiny oedd ei hangen fwyaf. Cafodd hyn yn ei adlewyrchu mewn ymchwil yn yr Alban a gafodd peth tystiolaeth fod rhieni yn ystyried y clybiau fel ffurf ar ofal plant (Cassels a Stewart, 2002). Lleisiwyd pryderon eraill hefyd. Er enghraifft, cafodd un astudiaeth fod rhai plant yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr o ganlyniad i fynychu clybiau brechwast (Watson a Marr, 2003). Mewn astudiaeth arall, ychydig yn unig o fanteision amlwg oedd i'r disgyblion hynny mewn perygl o gael eu heithrio o'r ysgol neu'r disgyblion hynny nad oedd ganddynt lawer o hyder (Harrop a Palmer, 2002).

Nid oedd targedu grwpiau penodol er mwyn cynnwys y rheiny â'r angen mwyaf bob amser yn briodol oherwydd amheuaeth plant neu rieni a'r stigma canfyddedig o gael eu cynnwys, neu'r anallu i dalu

taliadau neu gyrraedd yr ysgol yn ddigon cynnar i fynychu'r clwb. Roedd hyn yn aml yn golygu nad oedd y rheiny fyddai'n elwa fwyaf o reidrwydd yn manteisio ar y clybiau (Harrop a Palmer, 2002).

Mae'r cysyniad o raglenni brecwast wedi datblygu, ond mae rhai yn awgrymu nad yw wedi gwneud hynny i'w lawn botensial. Dywed Harrop a Palmer (2002) : *'The breakfast club movement stands at the intersection of several key developments in public policy, not least the 'childcare revolution', the rise of out of school hours learning, and the government's ambitious agenda for social inclusion. But still, the status of breakfast clubs seems a little ambiguous and insecure. Our suspicion is that breakfast clubs are catching only the slipstream of the energy and resources being devoted to childcare, study support and school standards.'*

### **3.8 Gweithredu clybiau brecwast o ddydd i ddydd**

Mae clybiau brecwast yn bodoli i ddarparu prydau i ddisgyblion cyn i'r ysgol ddechrau, ond mae gwahaniaethau yn y ffyrdd y mae clybiau unigol yn cael eu trefnu ac yn gweithredu. Eglura Street a Kenway (1999); *'breakfast clubs, like many other areas of children's services, are very diverse, reflecting the way they have grown gradually, often in response to some particular local interest or need.'* Awgryma Simpson (2001) fod clybiau brecwast yn aml yn adlewyrchu mentrau gan adrannau addysg a iechyd lleol oherwydd y gydnabyddiaeth fod prosiectau brecwast yn gallu gwneud; *'a serious contribution in helping to tackle a range of current areas of concern'* (Street, 1999). Er enghraifft, mewn astudiaeth o 37 o glybiau brecwast yn y DU, roedd pob clwb yn anelu at wella iechyd a maeth y disgyblion, ond dyna oedd prif nod 40 y cant yn unig o'r clybiau y cynhaliwyd arolwg ohonynt. Adroddodd yr un canran o glybiau mai eu prif nod oedd gwella addysg y plant. Roedd yr holl glybiau yn anelu at wella anghenion cymdeithasol y plant ac mewn tri chwarter o'r ysgolion cynradd, roedd gwella bywyd rhieni a bywyd teuluol ar yr agenda (Harrop a Palmer, 2002).

Yn ogystal â dylanwad diddordebau ac anghenion lleol, roedd yr amgylchiadau a'r amcanion unigol yn effeithio ar weithrediad pob clwb brechwast. Roedd ysgolion yn aml yn integreiddio gwahanol flaenoriaethau mewn rhaglenni brechwast fel cefnogi astudio, cefnogi lles ac annog rhyngweithio anffurfiol rhwng plant a staff yr ysgol (BNF, 2005). Er enghraifft, mae'r clwb brechwast mewn un ysgol, a gefnogir gan BUPA Community Connections, yn cynnwys ymweliad wythnosol gan wirfoddolwyr rhyngwladol BUPA i helpu disgyblion i ddefnyddio cyfrifiaduron, cynorthwyo gyda darllen, sillafu a mathemateg a darparu gwersi iaith (BUPA, 2005)

### **3.9 Lleoliad clybiau brechwast**

Lleolir clybiau brechwast mewn ysgolion yn bennaf ac fe'u cyflwynir mewn lleoliadau yn amrywio o feithrinfeydd i ysgolion uwchradd. Er gwaethaf y ffaith fod mwyafrif helaeth clybiau brechwast wedi'u lleoli mewn ysgolion, mae Street a Kenway (1999) yn dadlau bod amrywiaeth eang o ddarpariaeth wedi ymddangos hefyd nad yw wedi'i lleoli mewn ysgolion. Defnyddir adeiladau nad ydynt yn adeiladau ysgol, yn cynnwys canolfannau cymunedol, eiddo chwaraeon ac eiddo eglwysi i gynig gwasanaethau i blant yn unig neu i blant a'u rhieni. Yn yr adeiladau hyn mae darpariaeth frechwast yn aml ar gael i ddisgyblion sy'n mynychu nifer o ysgolion yn yr ardal gyfagos. Mewn astudiaeth blwyddyn o hyd o 37 o glybiau brechwast yn y DU, roedd 19 wedi'u lleoli mewn ysgolion cynradd, 10 mewn ysgolion uwchradd, tri mewn ysgolion arbennig ac roedd un clwb wedi'i lleoli mewn elusen oedd yn addysgu plant oedd wedi gadael y system ysgolion (Harrop a Palmer, 2002).

### **3.10 Y sawl sy'n mynychu clybiau brechwast**

Mae astudiaethau yn dangos bod grŵp craidd o ddisgyblion yn aml sy'n mynychu clybiau yn rheolaidd, ond bod trosiant uwch o ddisgyblion eraill ac amrywiad sylweddol yn y mynychu o ddydd i ddydd. Rhaid nodi y gall gwneud cysylltiadau rhwng clybiau brechwast a gwelliant ym mherfformiad disgyblion mewn unrhyw ffurf fod yn anodd

oherwydd yr anwadaliad parthed nifer y disgyblion sy'n mynychu (Harrop a Palmer, 2002).

Nododd Harrop a Palmer (2002), mewn astudiaeth o 37 o glybiau brecwast, bedwar categori o blant y darperir brecwast ar eu cyfer. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Plant yn byw mewn cartrefi lle nad oes bwyd ar gael yn y boreau. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys cartrefi lle nad oedd rhieni yn gallu fforddio digon o fwyd sylfaenol a theuluoedd lle mae rhieni yn esgeuluso eu plant.
- Plant nad ydynt yn cael cynnig brecwast, er bod bwyd ar gael. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys boreau anhrefnus, brysiog, a gorfod gadael yn gynnar oherwydd teithiau hir.
- Plant y cynigir brecwast iddynt, ond sy'n gwrthod ei fwyta. Roedd rhesymau dros hyn yn cynnwys cyfog, diffyg chwant bwyd yn y bore a dylanwadau cymdeithasol a seicolegol.
- Plant nad ydynt yn bwyta'n dda yn y boreau, yn enwedig y rhai sy'n prynu byrbrydau llawn siwgr ar y ffordd i'r ysgol.

Cafodd ymchwil a gynhaliwyd gan UEA (2002) yn Lloegr mai'r mathau o ddisgyblion oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r ddarpariaeth oedd:

- Y rheiny y byddent wedi cael brecwast gartref ond eu bod yn dymuno mynychu'r clwb am ei fod yn ddigwyddiad cymdeithasol ar ddechrau'r diwrnod ysgol.
- Plant nad ydynt yn bwyta amrywiaeth o fwydydd yr oedd eu rhieni yn teimlo y byddent yn fwy tebygol o gael brecwast yn yr ysgol er ei fod ar gael yn y cartref.
- Plant yr oedd eu rhieni incwm-is yn sicrhau eu bod yn cael brecwast gartref os nad oedd clwb ar gael yn yr ysgol ond oedd yn cael brecwast o ansawdd uchel â mwy o amrywiaeth yn yr ysgol.
- Plant yr oedd eu rheini yn fyfyrwyr neu yn y gwaith.
- Plant nad oedd eu rhieni bob amser yn gallu fforddio darparu brecwast.
- Plant nad oedd eu rheini yn gallu trefnu brecwast.

### **3.11 Staffio clybiau brecwast**

Gall y staff sy'n gweithredu clybiau brechwast amrywio cymaint â'r lleoliad ei hun. Gall clybiau brechwast gael eu rhedeg gan rieni, gwirfoddolwyr, staff yr ysgol a staff o sefydliadau cymunedol (Street a Kenway, 1999). Cafodd Cassels a Stewart (2002) fod mwyafrif y staff yn yr Alban yn cael eu talu tra cafodd astudiaeth gan Street a Kenway (1999) fod ystod o staff yn cael eu contractio i redeg y clybiau, yn cynnwys staff ysgolion fel Cynorthwyr Cefnogi Dysgu (CCD) a Chydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (SENCOs), staff cyswllt cartref, staff arlwyo ac arweinwyr clybiau ar ôl ysgol. Amlygwyd pryder gan Cassels a Stewart (2002) fod swm yr hyfforddiant a gynigiwyd i'r rheiny oedd yn gweithio mewn clybiau brechwast yn annigonol.

### **3.12 Cyllido clybiau brechwast**

Cyllidir clybiau brechwast mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae ffynonellau cyllido posib yn cynnwys awdurdodau iechyd a chyllid hybu iechyd, parthau gweithredu addysg, cyllid partneriaeth addysg busnes, rhaglenni adfywio wedi'u targedu, cyllidebau awdurdodau lleol, grantiau elusennol, grantiau busnes preifat ac archfarchnadoedd, ac arian y loteri.

Mae rhai clybiau brechwast yn codi ffioedd am fynychu, ond ceir amrywiad mawr yn y ffioedd a adroddir. Cafodd Street a Kenway (1999) y gallai hyn amrywio o 20 ceiniog y dydd i £2.50. Cafodd astudiaeth arall fod taliadau yn amrywio o 30c i 60c a bod clybiau yn dibynnu ar gyllid allanol os oedd angen talu costau staff neu fwyd ychwanegol arnynt (Harrop a Palmer, 2002). Yn eu hymchwil ar glybiau brechwast yn yr Alban, nododd Cassels a Stewart (2002) fod mwy nag wyth deg y cant o glybiau yn codi ffi am fynychu (a oedd mewn rhai achosion yn cael ei ostwng os oedd mwy nag un plentyn o'r un cartref yn defnyddio'r ddarpariaeth).

Ceir llawer o enghreifftau o gwmnïau yn cefnogi gweithredu clybiau brechwast yn ariannol. Er enghraifft, roedd becws yn gyfrifol am gefnogi nifer o glybiau drwy gynnig cynlluniau cyllido dwy flynedd, bara am ddim ac arian ar gyfer grawnfwyd a sudd a thaliadau unigol ar gyfer cyfarpar fel peiriannau tostio. Mae clwb brechwast mewn ysgol i blant

ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol wedi'i noddi gan gwmni olew (Watson a Marr, 2003).

Mae partneriaethau wedi datblygu hefyd er mwyn cefnogi clybiau brecwast. Er enghraifft, mae'r elusen addysgol ContinYou wedi gweithio mewn partneriaeth â gweithgynhyrchydd grawnfwyd mawr ers sawl blwyddyn i gynorthwyo datblygu clybiau brecwast drwy ddarparu canllawiau 'sut i' ar gyfer clybiau brecwast, gwefan, cynllun gwobrwyo cenedlaethol, cyllid i ysgolion, a chynnal ymchwil i mewn i effaith clybiau brecwast ar ysgolion a'u cymunedau. Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, mae chwe chwstwr ALI wedi rhedeg menter clybiau brecwast mwy iach. Mae'r clystyrau yn cydweithio i gynllunio digwyddiadau dathlu i hybu'r prosiectau (Yr Adran Iechyd, 2005). Fodd bynnag, nododd ymchwil a gynhaliwyd gan UEA (2002) fod datblygu partneriaethau yn aml yn broses oedd yn llyncu amser a bod angen sicrhau y rhoddir digon o amser sefydlu i'r sawl sy'n gyfrifol.

### **3.13 Categoriâu clybiau brecwast**

Nododd Street a Kenway (1999) pedwar prif fath o glybiau brecwast gan ymgorffori'r amrywiadau yn y gweithredu dydd i ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sefydliadau wedi'u lleoli yn y gymuned yn gwasanaethu llawer o ysgolion o leoliad cymunedol.
- Mentrau wedi'u lleoli mewn ysgolion gyda ffocws penodol ar fynd i'r afael â phrydlondeb neu arferion bwyta gwael a chynorthwyydd lles i oruchwylio disgyblion.
- Ysgolion gyda grŵp gwirfoddol lle'r oedd staff yr ysgol yn gweithio fel gwirfoddolwyr.
- Partneriaethau rhwng y bwrdd iechyd lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac ysgol lle'r oedd staff yr ysgol yn gweithio'n wirfoddol gyda goruchwylwyr pryddau yn bresennol.

### **3.14 Brecwastau ysgol am ddim yng Nghymru**

Ynghyd ag ardaloedd eraill y DU, mae ysgolion yng Nghymru wedi darparu brecwast mewn ysgolion ers nifer o flynyddoedd. Yn 2003, adroddwyd o'r 1,700 o ysgolion cynradd yng Nghymru, roedd 34 yn cynnig brecwast (BBC, 2003).

Fodd bynnag, cyn 2003 ni chafwyd unrhyw gyllid er mwyn darparu brecwastau ysgol gan naill ai awdurdodau iechyd lleol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ar ddiwedd 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bwriad i gyllido'r cyfle i'r *'holl blant ysgol gynradd gael brecwastau am ddim'* erbyn 2007. Adroddwyd bod y datblygiad hwn yn adeiladu ar y gwaith *'sy'n cael ei wneud ar fwyta'n iach a maeth drwy Rwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru (RhCYIC) ac yn rhan o fenter Her Iechyd Cymru Llywodraeth y Cynulliad.'*

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004b

Mae Her Iechyd Cymru yn fenter allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru a nododd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson ei bod yn cysylltu â'r fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd oherwydd

*Rydym yn gwybod bod patrymau iechyd yn cael eu sefydlu yn gynnar mewn bywyd ac y gall ffordd o fwy nad yw'n iach yn ystod plentyndod arwain at diabetes, clefyd y galon a hyd yn oed canser yn ddiweddarach mewn bywyd. Yn ffodus, gellir atal llawer o hyn, os gallwn adeiladu consensws ar yr hyn y mae angen i ni i gyd i'w wneud. A dyna yw rôl Her Iechyd Cymru a'r cynllun brecwastau ysgol am ddim.*

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004a

Cydnabuwyd pwysigrwydd darparu brecwast hefyd gan Jane Davidson a ddywedodd

*Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod brecwast iach yn gysylltiedig â gwell iechyd, canolbwyntio ac ymddygiad mewn ysgolion. Rydym am roi cychwyn da i bob plentyn yng Nghymru - a dyna'n union y mae'r fenter gyffrous hon yn ei wneud.*

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003



Treialwyd datblygu'r fenter brecwastau ysgol am ddim mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf mewn naw awdurdod addysg lleol ar draws Cymru. Y naw awdurdod addysg lleol a ddewiswyd i gymryd rhan yn y peilot oedd

Sir Benfro	Castell-nedd Port Talbot
Sir Gaerfyrddin	Caerffili
Merthyr Tudful	Caerdydd
Sir Fôn	Wrecsam
Sir Ddinbych	

Rhagwelwyd y byddai hyd at 11,000 o blant yn cael y cyfle i gael brecwast yn yr ysgol o ganlyniad i'r peilot, na fyddai'n disodli brecwast sydd eisoes yn cael ei ddarparu trwy glwb brecwast. Amcangyfrifwyd y byddai'r peilot yn costio £1.5 miliwn yn 2004-2005. Gobeithiwyd y byddai'r fenter clybiau brecwast yn cael ei hehangu i gynnwys pob ysgol gynradd yng Nghymru erbyn Ionawr 2007.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad mewn perthynas â'r fenter brecwastau am ddim (2004b), oedd yn canolbwyntio ar gymarebau disgyblion/staff, amseriadau, a'r bwyd i'w ddarparu. Mae'r arweiniad yn nodi y bydd darparu brecwast yn yr ysgol yn gwella iechyd a maeth disgyblion drwy annog bwyta'n iach a bydd yn cynorthwyo wrth

- *hybu pwysigrwydd brecwast a phwysleisio ei fanteision*
- *rhoi cychwyn da i ddiwrnod plentyn yn yr ysgol*
- *helpu i wella cyrhaeddiad*
- *gwella'r gallu i ganolbwyntio*
- *gwella presenoldeb a phrydlondeb*
- *gwella agwedd plant tuag at ddysgu*
- *gwella sgiliau cymdeithasol a phersonol*
- *gwella perthynas â chyd-ddisgyblion/rhieni/gofalwyr.*

Yn yr ysgolion peilot, byddai gan ddisgyblion oedd yn bwyta brecwast y cyfle i ddewis un eitem o'r pedwar grŵp bwyd canlynol.

diodydd neu gynnyrch seiliedig ar laeth  
grawnfwydydd – heb eu gorchuddio â siwgr  
ffrwyth  
bara.

O fewn yr arweiniad mae maint y dognau ar gyfer pob grŵp bwyd wedi'u rhagnodi. Ni ddisgwyliwyd y byddai'r ddarpariaeth frecwast yn agor i ddisgyblion cyn 8 y bore ac roedd disgwyl iddo ddod i ben 10 munud cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Fodd bynnag, noda'r arweiniad

*Bydd pob ysgol yn cael yr hyblygrwydd, o fewn y canllawiau hyn, i benderfynu sut y byddant yn darparu ac yn rhedeg y sesiynau brechwast am ddim. Os oes clybiau/sesiynau brechwast eisoes yn gweithredu, anogir ysgolion i edrych ar y posibilrwydd o gydweithio â'r darparwr presennol.*

Roedd yn ofynnol ar ysgolion sicrhau fod y ddarpariaeth frecwast yn cydymffurfio â rheoliadau mewn perthynas â lechyd a Diogelwch, Diogelwch Bwyd, Diogelwch a Driliau Tân, Cymorth Cyntaf ac i sicrhau fod y ddarpariaeth frecwast yn cael ei chynnwys o fewn yr yswiriant priodol.

Gellid tynnu staff goruchwyllo ar gyfer y ddarpariaeth frecwast o ystod eang o ffynonellau a allai gynnwys

*staff addysgu, staff y gegin, goruchwylwyr amser cinio, rhieni sy'n cynorthwyo neu Gynorthwywyr Cymorth Dysgu. Os bydd datganiad Anghenion Addysgol Arennig plentyn yn dangos bod angen rhagor o gymorth ar y plentyn hwnnw bydd yn rhaid ystyried hynny wrth recriwtio staff i orchwyllo'r sesiwn frechwast.*

Rhaid i unrhyw berson a gyflogwyd i oruchwyllo'r ddarpariaeth frecwast fod yn destun Gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol a byddent yn cael eu cyflogi am awr y dydd. Gosodwyd y cymarebau goruchwylwr/disgybl canlynol ar gyfer y peilot:

<i>Nifer y disgyblion yn y clwb</i>	<i>Nifer y staff goruchwylio sydd eu hangen</i>
1-55	2
56-85	3
86-125	4
126-165	5
166-215	6
216-265	7

Darparodd Llywodraeth y Cynulliad gyllid ar gyfer y ddarpariaeth frechwast peilot oedd yn cynnwys costau sefydlu hyd at uchafswm o £2000 y clwb a £500 y tymor ar gyfer costau gweithredu. Rhoddwyd cymhorthdal i gostau bwyd ar lefel o 25c y plentyn y dydd.

Darparwyd cyllid hefyd ar gyfer staff goruchwylio ac arlwyo ar gyfer un awr y dydd, yr oedd y nifer ohonynt yn dibynnu ar nifer y disgyblion oedd yn mynychu'r ddarpariaeth frechwast.

Ni fyddai unrhyw weithgareddau addysgol yn cael eu hintegreiddio fel rhan o'r fenter brecwastau am ddim. Fodd bynnag, anogwyd disgyblion i gymryd rhan wrth ddylunio bwydlenni a, thrwy eu cynghorau ysgol, gymryd rhan mewn rhedeg y clybiau. Pwysleisiodd yr arweiniad y byddai angen i rieni roi rhybudd y byddai eu plant yn mynychu dymor ymlaen llaw a hefyd:

*Nid yw brecwast am ddim yn hawl. Gall ysgolion wrthod mynediad i unrhyw blentyn ar sail ymddygiad annerbyniol. Unwaith y mae plant wedi cofrestru wrth gyrraedd mae'n rhaid iddynt aros yn y sesiwn frechwast.*

Roedd datblygu a chyllido'r fenter brecwastau ysgol am ddim yn nodi cyfeiriad newydd mewn polisi addysgol yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu darparu brecwast mewn ysgolion a gosod arweiniad clir i ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y peilot.

#### **Canfyddiadau Allweddol**

Ysbrydolwyd darparu brecwastau ysgol gan dystiolaeth o'r effaith bositif y gall ei chael ar ystod o faterion, yn cynnwys presenoldeb yn yr

ysgol, prydlondeb, canolbwyntio, cyrhaeddiad, ac wrth hybu negeseuon am iechyd a maeth; cyflwynwyd rhaglenni o'r fath mewn nifer o wledydd ledled y byd.

Ychydig o dystiolaeth feintiol sydd ynghylch effeithiolrwydd brechwastau ysgol; fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ansoddol yn gyson bositif.

Mae darpariaeth frechwast mewn ysgolion yn ffordd o annog y grwpiau disgyblion hynny sydd leiaf tebygol o fod wedi bwyta brechwast gartref i gael rhywbeth i fwyta; mae brechwast maethlon hefyd â'r fantais o gyfrannu at ddeiet cytbwys; fodd bynnag, cydnabyddir fod rhaid cyflawni cydbwysedd anodd rhwng denu plant nad ydynt yn bwyta brechwast a darparu brechwast iach.

Yn ogystal â chynnwys y bwyd ei hun a negeseuon am iechyd, gall brechwastau ysgol gyfrannu at ddiwrnod ysgol mwy sefydlog, a gwell cymhelliant i ddysgu; gallant hefyd gyfrannu at ddatblygu sgiliau cymdeithasol a hyder disgyblion.

Mae brechwastau ysgol hefyd yn ffordd o alluogi rhieni i sicrhau fod eu plant yn cael pryd o fwyd yn y bore ar adeg lle y ceir problemau cynyddol ynghylch cydbwysedd bywyd-gwaith.

Mae darparu brechwast mewn ysgolion yn cynnig un ffordd i gyrraedd plant sy'n byw mewn tlodi; fodd bynnag, mae pryderon yn parhau na fanteisir ar rai cyfleoedd gan y rhai mwyaf anghenus.

Mae arian ar gyfer darpariaeth brechwastau ysgol yn gyfyngedig ac mae natur dros dro llawer o'r hyn sydd ar gael yn codi cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd.

Gellir ystyried brechwastau ysgol fel rhan o ddatblygiad llawer ehangach o 'ysgolion estynedig' lle mae ysgolion yn ysgwyddo lefel gynyddol o gyfrifoldeb dros blant, yn ychwanegol at a'r tu hwnt i'r syniadau traddodiadol am addysg.

Gall nodau clybiau unigol amrywio; mae rhai yn canolbwyntio'n bennaf ar iechyd a lles, ac mae i eraill ffocws mwy addysgol; mae rhai yn ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol mwy cyffredinol.

Yn aml darperir brecwastau ar safleoedd ysgol; fodd bynnag, defnyddir lleoliadau eraill hefyd.

Cafwyd bod ystod o ddisgyblion yn dewis y ddarpariaeth frechwast pan gaiff ei chynnig; mae'r rhain yn cynnwys rhai na fyddent fel arfer yn bwyta brecwast gartref ynghyd ag eraill, fel y rhai y mae eu rhieni yn gweithio yn gynnar yn y bore neu na allant drefnu brecwastau am ryw reswm arall.

Cyflwynir darpariaeth frechwast gan ystod o unigolion, yn cynnwys gwirfoddolwyr a staff a leolir mewn ysgolion.

Mae nifer o sefydliadau elusennol a busnesau preifat wedi cyfrannu at fentrau brecwast unigol; fodd bynnag, nid oes ffynhonnell gyllido sefydlog y tu allan i Gymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i ddarparu brecwastau iach, am ddim i holl blant ysgolion cynradd; gwahoddwyd ysgolion i gymryd rhan ond ni fyddai unrhyw ysgol yn cael ei gorfodi i gyflwyno brecwast.

Ysgolion sy'n gwasanaethu wardiau Cymunedau'n Gyntaf oedd y rhai cyntaf i gael cynnig datblygu darpariaeth brecwastau ysgol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu'r lefelau staffio, ymrwymiad amser, a'r math o fwyd i'w ddarparu yn y clybiau y mae'n eu cefnogi.

## 4. Menter brechwastau ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r bennod hon yn archwilio profiadau sampl o'r ysgolion hynny lle y cyflwynwyd menter brechwastau ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod 2004-05. Mae'r dystiolaeth yn tynnu ar safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys personél ALI, penaethiaid a staff eraill a leolir mewn ysgolion, a disgyblion.

### 4.1 Persbectifau ar y fenter brechwastau ysgol

Cynigiodd ALLau nifer o wahanol resymau dros gymryd rhan yn y fenter frechwast. Roedd y rhain yn cynnwys pryder nad oedd disgyblion yn bwyta brechwast cyn dod i'r ysgol a chred hefyd y byddai bwyta brechwast yn gwella cyrhaeddiad disgyblion a chyfrannu at well ymddygiad. Pwysleisiodd nifer o ALLau bwysigrwydd agwedd iechyd y fenter yn ogystal â'i manteision addysgol posib. Teimlwyd gan nifer o ALLau fod y rhaglen yn gyfraniad gwerthfawr at waith ysgolion oedd yn aml yn wynebu'r heriau mwyaf, o ystyried ei bod yn cael ei threialu mewn ysgolion oedd yn gwasanaethu wardiau mwyaf difreintiedig Cymru. Roedd y fenter wedi cyfateb yn agos i rai o fentrau'r ALLau eu hunain i gefnogi'r ysgolion hynny. Er enghraifft, roedd un ALI yn gweld cyfranogi yn y fenter frechwast fel: *'dechrau ar ddiwrnod deg awr. Mae'n rhan o symudiad tuag at gwblhau gwasanaethau cofleidiol a gofal estynedig'*.

Roedd rhai ALLau yn fwy gofalus ac yn dweud eu bod yn cadw meddwl agored am y fenter. Dywedodd rhai y byddent yn gwerthuso'r fenter ar ôl cymryd rhan yn y cam peilot. Er enghraifft, roedd un ALI yn pryderu am dystiolaeth fod darparu brechwast yn amharu ar batrymau bwyta disgyblion: *'Mae disgyblion yn cael brechwast am 8.30 - 9, yna ffrwyth a llaeth ac yna cinio erbyn 12. Yna rhwng 12.30 tan efallai 6.00 neu bryd bynnag y maent yn cael te nid ydynt yn cael dim byd. Nid wyf yn dweud na ddylen nhw eu cael, ond fe ddylen ni ailfeddwl os yw hyn yn mynd i*

*gael ei gyflwyno'n gyffredinol, er enghraifft, ffrwyth cyn iddynt fynd adref. Mae'r holl fentrau yn rhedeg rhwng 8.30 - 12.00'.*

Mynegodd un ALI bryderon difrifol, yn enwedig ynghylch y gost:

*Mae gen i farn bersonol gref amdano - nid oes dim byd o'i le â'r ethos y tu ôl i frechwast am ddim, ond nid oes modd cyfiawnhau swm yr arian sydd ei angen i'w gyflwyno.*

Roedd mwyafrif y penaethiaid yn teimlo y byddai menter frechwast Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fanteisiol ac y gallai fod yn fuddiol i'r holl ddisgyblion o gael ei hybu'n effeithiol ac yn gallu cyrraedd y disgyblion mwyaf anghenus. Sylw cynrychioliadol oedd eu bod yn adnabod pa mor ddymunol fyddai: *'darparu brechwast iach i'r plant hynny yn yr ysgol oedd yn dod i'r ysgol heb gael brechwast'.*

Dyweddodd dau bennaeth eu bod wedi bod yn amheus i ddechrau ynghylch nodau'r rhaglen, a dywedodd un ohonynt 'rydym yn gweithio'n galed i gael rhieni i dderbyn cyfrifoldeb gyda ni dros weithio gyda'u plant ac roedd y clwb brechwast yn cael gwared ar y cyfrifoldeb hwnnw ymhellach ... i'r rhieni hynny nad ydynt yn codi gyda'u plant, mae wedi eu rhyddhau nhw o'r cyfrifoldeb hwnnw fwy byth'. Roedd aelod o'r staff arlwyio mewn ysgol arall yn cytuno a dywedodd ei bod yn parhau i wrthwynebu'r fenter. Yn ei barn hi gofynnwyd i ysgolion wneud gormod ac nid oedd rhieni yn cymryd y cyfrifoldeb priodol. Er gwaethaf amheuan cychwynnol, cytunodd un pennaeth arall i'r fenter fod yn fuddiol: *'Roeddwn yn teimlo i ddechrau ei bod yn anghywir, mai gwaith rheini oedd hyn a'n bod ni yn crwydro i dir y wladwriaeth gyfarwyddol ... ond pan welwch yn y math hwn o ardal yr effaith y mae'n ei chael, yna ydy, mae'n syniad da'.*

## **4.2 Cysylltiadau â mentrau eraill**

Er i'r fenter frechwast gael ei lansio fel rhaglen annibynnol, sicraodd nifer o ALLau ei bod yn gysylltiedig â strategaethau eraill yr ALI. Er enghraifft, roedd sawl ALI wedi sefydlu grwpiau maeth neu grwpiau cysylltiedig â iechyd oedd yn chwarae rôl yn y ddarpariaeth frechwast.

Yn benodol, teimlwyd bod y fenter frecwast yn ategi mentrau Ysgolion Iach.

Roedd yr holl ysgolion sampl wedi cysylltu'r fenter frecwast â themâu eraill sy'n gysylltiedig â iechyd. Dywedodd rhai penaethiaid ei bod yn rhan o Fentrau Ysgolion Iach a bod y ddarpariaeth frecwast yn rhan o ymagwedd ysgol gyfan i hybu bwyta'n iach. Wedi dweud hynny, roedd llawer yn cydnabod bod newid arferion bwyta yn nod hir dymor oherwydd: *'mae'n cymryd blynyddoedd i wreiddio'r pethau hyn'*.

Dywedodd un pennaeth fod yr ysgol yn darparu ystafell ddynodedig er mwyn cyflwyno brechwast a ddefnyddiwyd hefyd ar gyfer coginio a gwersi am ffordd o fyw iach. Dywedodd un arall eu bod yn treulio pythefnos cyntaf bob blwyddyn academaidd yn edrych ar fwyta'n iach fel thema drawsgwricwlaidd.

### 4.3 Paratoi'r fenter

Roedd ystod o ffactorau yn dylanwadu ar y ffordd y cafodd y fenter ei datblygu mewn ysgolion. Mae'r materion hyn yn cael eu categorio isod.

#### **Cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ALLau**

Roedd ymatebwyr ALI yn bositif iawn am y cyfathrebu a ddigwyddodd rhyngddynt hwy a'r cynulliad yn ystod y cyfnod peilot a disgrifiwyd y peth gan lawer fel proses ddwyffordd. Un sylw nodweddiadol oedd *'Rwy'n teimlo bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwrandao arnom ni, ac maent wedi gweithredu ar yr hyn y gwnaethant ei glywed.'* Yn benodol, roedd ALLau yn croesawu'r cyfarfodydd gweithiol a gynhaliwyd. Roedd y rhain wedi cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ALI drafod a datblygu'r peilot ymhellach. Cyfeiriodd y sawl gafodd gyfweiliad yn bositif at achosion lle y diwygiwyd arweiniad drafft yn dilyn cyfarfodydd o'r fath. At hynny, roedd nifer o ALI yn teimlo bod eu profiadau gyda'r fenter frecwast wedi bod yn bositif ar y cyfan.



## **Dewis ysgolion**

Dewiswyd ysgolion ar sail meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai ysgolion gael eu lleoli mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf neu wasanaethu'r ardaloedd hynny. Roedd un ALI wedi ysgrifennu at bob ysgol gynradd a derbyniodd ugain o ymatebion positif gan ysgolion ar draws yr ALI. Lleihawyd y nifer hwn yn ddiweddarach yn unol â'r meini prawf Cymunedau'n Gyntaf er mwyn darparu'r ysgolion peilot i'r ALI. Mewn sawl ALI, roedd ysgolion yr oeddent eisoes yn cynnal clybiau brechwast wedi cael eu hymgorffori i mewn i'r peilot. Nid oedd mwyafrif yr ALLau wedi gwahaniaethu rhwng ysgolion â cheginau cynhwysfawr â'r rheiny nad oedd ganddynt gyfleusterau o'r fath ac mewn rhai achosion roeddent wedi buddsoddi mewn cyfarpar ychwanegol i ysgolion heb geginau.

## **Hysbysu ysgolion**

Roedd yr holl ysgolion wedi cael eu briffio am y fenter mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd un pennaeth fod y cyfarfod wedi cynnwys cyflwyniad gan bennaeth oedd eisoes yn rhedeg darpariaeth frechwast a bod cael clywed am y peth gan rywun â phrofiad ymarferol wedi bod yn ddefnyddiol. Ym mwyafrif yr achosion dilynwyd cyfarfodydd Llywodraeth Cynulliad Cymru gan gyfarfodydd a drefnwyd gan ALLau. Mireiniwyd ychydig ar y strwythur reoli arfaethedig ar gyfer y fenter yn dilyn y cyfarfodydd hynny; er enghraifft, mewn un ALLau penderfynwyd peidio â defnyddio'r un gyfradd i dalu goruchwylwyr brechwast ac a ddefnyddiwyd i dalu staff goruchwyllo amser cinio.

## **Trefniadau ar gyfer trafndiaeth ysgolion**

Roedd llawer o ALI yn ymwybodol fod penaethiaid ac eraill wedi mynegi pryderon am yr effaith bosib y gallai'r fenter frechwast ei chael ar drafndiaeth ysgolion. Roedd ymatebwyr ALLau yn credu bod y materion hyn yn codi cwestiynau am gyfle cyfartal a mynediad cyfartal. Crynhowyd hyn gan un swyddog ALI a ddywedodd:

*Gallai fod gennych lond bws o ddisgyblion y mae hanner eu rhieni yn dymuno i'r plant gael brechwast, a'r hanner arall ddim. Be' wnewch chi? Eu cymryd hwy i gyd i mewn yn gynnar? Cael dau fws?*

Mynegodd swyddog ALI arall y pryder canlynol: 'Unwaith rydych yn dechrau darparu trafndiaeth i'r sesiwn frecwast beth fydd diwedd y peth?'

Fodd bynnag, roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr o ysgolion ac ALLau yn nodi oherwydd daearyddiaeth yr ardaloedd a wasanaethwyd gan yr ysgolion peilot, nid oedd trafndiaeth ysgol wedi cael ei heffeithio oherwydd bod disgyblion yn cerdded i'r ysgol neu'n cyrraedd mewn ceir. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd roedd nifer uwch o ddisgyblon yn teithio mewn bus neu dacsï. Mae bysiau a thacsis contract yn sicrhau fod disgyblion yn cyrraedd erbyn dechrau'r diwrnod ysgol ac felly ni fyddai disgyblion oedd yn teithio mewn bus contract neu dacsï oedd yn dymuno cael brechwast yn gallu ei gael. Yn yr un modd, gallai'r rheiny oedd yn teithio ar fysiau gwasanaeth yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth dim ond os oedd bus gwasanaeth yn rhedeg ar amser y byddai'n galluogi iddynt gyrraedd yr ysgol pan oedd brechwast yn cael ei weini. Roedd ALLau yn teimlo y gallai fod mwy o faterion trafndiaeth ysgol pan fyddai'r fenter yn cael ei chyflwyno'n gyffredinol, yn enwedig i ysgolion gwledig, ffydd a chyfrwng Cymraeg sy'n denu disgyblion o dalgylchoedd ehangach.

Fodd bynnag, nododd ALLau ac ysgolion y cafwyd effaith ar batrolau croesi ysgolion o ganlyniad i'r fenter frecwast. Mewn rhai achosion llwyddwyd i osgoi anawsterau drwy beidio â dechrau brechwast tan ar ôl 8.15am.

### **Trefniadau i ddisgyblion gydag anghenion deietegol arbennig**

Roedd ysgolion wedi gallu ymateb i anghenion disgyblion ag ystod o anghenion deietegol arbennig neu Anghenion Addysgol Arbennig. Roedd ysgolion wedi addasu'r fenter yn lleol, yn cynnwys:

- darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion deietegol arbennig, e.e. alergedd i gnau
- darparu bwydydd amgen i blentyn gydag anoddefgarwch lactos
- sicrhau fod staff ychwanegol yn goruchwylio disgyblion â datganiad ag AEY – fel arfer person gwahanol i'r person a gyflogwyd i weithio gyda hwy yn ystod y diwrnod ysgol.

Fodd bynnag, fel a nodwyd uchod, cydnabuwyd yn aml nad oedd disgyblion y gwnaed trefniadau trafndiaeth arbennig ar eu cyfer, er enghraifft tacsis, yn gallu mynychu'r fenter frechwast.

#### **4.4 Cyflwyno'r fenter**

Gofynnwyd i bob ALI ac ysgol oedd yn cymryd rhan i ddisgrifio sut y cyflwynwyd y fenter frechwast ac i amlinellu'r materion yr oedd eu cyflwyno yn eu codi.

##### **Profiad blaenorol**

Dywedodd dwy o'r wyth ysgol beilot eu bod wedi rhedeg clybiau brechwast cyn dyfodiad menter Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd un ohonynt wedi gwneud hynny gyda chymorth grant bach o'r Fenter Ysgolion Iach, tra roedd y llall wedi defnyddio arian y loteri. Yn un o'r ysgolion hyn, codwyd tâl bach ar rieni i gynorthwyo â chost y bwyd cyn dyfodiad y fenter frechwast.

##### **Paratoi**

Roedd ysgolion yn teimlo eu bod wedi cael digon o amser i baratoi. Mewn un ysgol, roedd yr amserlen wedi bod yn fwy heriol oherwydd eu bod wedi cael eu harchwilio gan Estyn ar yr un adeg ag yr oedd y fenter yn cael ei chyflwyno. Roedd sawl ysgol yn teimlo fod y lefel sylweddol o baratoi a wnaed gan eu ALI yn elfen bwysig wrth gyflwyno'r fenter yn hwylus.

##### **Marchnata**

Dywedodd ysgolion eu bod wedi hysbysu rhieni drwy lythyr y byddai'r fenter frechwast yn cael ei lansio. Cafodd y rhieni eu hatgoffa hefyd amdani drwy lythyrau rheolaidd. Roedd ysgolion peilot hefyd wedi hybu'r fenter i ddisgyblion yn ystod gwasanaethau'r ysgol a sesiynau bugeiliol. Roedd yr ymateb gan rieni yn un cymysg. Roedd un pennaeth yn disgrifio sut yr oedd yr ysgol wedi amcangyfrif o ymatebion rhieni y byddai 100 o ddisgyblion yn bresennol ond dim ond 60 oedd yno. Mewn un ALI rhoddwyd dau gyfle i'r rhieni, y cyntaf ar ddiwedd tymor yr haf a'r llall ar ddiwedd tymor yr hydref, i gofrestru eu plant. Gofynnwyd i'r holl rieni ymrwymo i sicrhau bod eu plant yn

bresennol bob dydd am dymor. Roedd y penaethiaid dan sylw yn cymeradwyo'r ymagwedd hon gan ei bod yn rhoi peth sefydlogrwydd iddynt a sylfaen i gynllunio staffio a bwyd.

### **Cyflenwad ac ansawdd bwyd**

Ym mwyafrif ALLau, cyfrifoldeb aelod blaen y staff arlwygo ym mhob ysgol oedd monitro ansawdd y bwyd. Roedd y staff hyn yn monitro ansawdd y bwyd a ddarparwyd gan gyflenwyr ac yn hysbysu eu rheolwyr llinell ynghylch unrhyw broblemau posib. Mewn nifer fach o ALLau, roedd rheolwyr arlwygo a staff eraill wedi ymweld ag ysgolion yn ystod brechwast i fonitro'r cyflwyno ac ansawdd y bwyd. Dywedodd yr holl bennaethiaid eu bod yn hapus ag ansawdd y bwyd.

Adroddodd yr holl ysgolion ac ALLau eu bod yn derbyn eu bwyd gan eu darparwyr arferol oedd yn darparu bwyd i'r ysgol. Dywedodd dau bennaeth eu bod wedi ystyried prynu ffrwyth gan fanwerthwr lleol oedd yn darparu ffrwyth ar gyfer eu siopau ffrwythau ond nad oedd hyn yn bosib gan y byddai wedi golygu bod angen proses dendro arall. Dywedodd pennaeth arall yr oedd wedi ystyried prynu ffrwyth yn lleol y byddai'r broses wedi cymryd gormod o amser i'w threfnu. Pan oedd bwyd yn cael ei brynu gan yr ALL neu gwmni yn gweithio ar ran ALLau, roedd tystiolaeth ansoddol y defnyddiwyd cyflenwyr lleol os yn bosib.

### **Cyflwyno brechwastau mewn ysgolion**

Disgrifiodd aelod o'r staff arlwygo, a oedd eisoes yn cael ei chyflogi yn yr ysgol, sut roedd y ddarpariaeth frechwast yn gweithio. Roedd hi'n paratoi'r brechwastau bob dydd, oedd yn golygu cyrraedd 45 munud yn gynharach nag yr oedd yn ei wneud cyn y fenter. Fel arfer roedd y brechwastau yn cymryd tua 20 munud i'w paratoi, ac yna roedd hi'n gweini ar y disgyblion ac yn clirio. Cafodd gymorth yn y gegin gan un person arall oedd yn golchi'r llestri ac yn tacluso. Heb y cymorth hwnnw roedd yn teimlo y byddai'n anodd dechrau paratoi'r cinio ysgol.

Mewn ysgol arall, roedd y cogydd yn dechrau gwaith am 7.30 ac roedd y goruchwylwyr yn cyrraedd am 8am. Ychydig yn unig o broblemau ymarferol a ddaethpwyd ar eu traws er y dywedodd aelod o'r staff arlwygo mewn ysgol fod her yn codi oherwydd nad oedd modd diheintio'r llestri a ddefnyddiwyd ar gyfer brechwast tan 9.30 (oherwydd

nad oedd y peiriannau diheintio yn ddigon twym i'w defnyddio tan hynny) allai olygu na fyddai digon o blatiau ar gyfer i'w defnyddio amser cinio.

Mae Tabl 1 yn dangos yr arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n datgan y dylid darparu'r grwpiau bwyd a'r maint dogneau canlynol i ddisgyblion.

**Tabl 4.1: Bwyd a ddarparwyd gan y fenter brechwastau am ddim**

<b>Grŵp bwyd</b>	<b>Maint y dogn</b>	<b>Eitemau a awgrymir</b>
<i>Diodydd a chynnyrch seiliedig ar laeth</i>	<i>125-175ml neu garton bach</i>	<i>Llaeth hanner-sgim Llyfnlaeth logwrt/fromage frais</i>
<i>Grawnfwydydd - heb eu gorchuddio â siwgr* *Er mwyn osgoi siwgr, dylid annog plant i ddefnyddio ffrwythau ffres a ffrwythau i ychwanegu melystod</i>	<i>25-42g</i>	<i>Bisgedi gwenith-cyflawn Creision yd Grawnfwyd â reis Bisgedi mál gwenith cyflawn (yn cynnwys y rhai â ffrwythau ynddynt) Muesli heb siwgr Sgwariau gwenith Bran Flakes</i>
<i>Ffrwyth</i>	<i>Pennir hyn gan faint y gallai plentyn ei ddal yn ei law neu 100-125ml of juice</i>	<i>Dewis o ffrwythau ffres wedi'u torri'n ddarnau neu ffrwythau sych i'w ychwanegu at y grawnfwydydd. Ffrwythau tun mewn sudd ffrwyth naturiol. Suddion ffrwyth heb siwgr.</i>
<i>Bara</i>	<i>1 dafell neu rol fechan 25g</i>	<i>Tost gydag amrywiaeth o ychwanegiadau e.e. caws braster isel, jam â siwgr isel, banana.</i>

*Bagelau a chaws  
hufennog braster  
isel.*

*Myffins a  
chrympets.*

*Picenni'r Grog a  
chacennau te.*

*Torth ffrwythau.*

*\*un o'r eitemau hyn  
ar gael 2 waith yr  
wythnos*

*Sylwer: lle mae  
angen dylid  
defnyddio margarín  
amlannirlawn.*

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr ALLau yn teimlo fod darparu arweiniad clir ar faint dognau wedi bod yn briodol. Roedd nifer fach o ALLau wedi dehongli'r canllawiau mewn ffordd oedd yn caniatáu hyblygrwydd gyda'r fwydlen. Golyga hyn er bod pob eitem a restrwyd yn yr arweiniad yn cael ei chynnig ar ryw adeg bob wythnos, efallai na fyddai eitemau penodol ar gael bob dydd. Er enghraifft, mewn un ALL darparwyd ffrwythau ffres ddwywaith yr wythnos a chynigiwyd sudd ffrwythau ar y tri diwrnod arall. Nododd rhai ymatebwyr ALLau nad oeddent wedi dewis darparu'r ystod lawn o fwyd fel llyfnlaethau oherwydd ystyriaethau cost. Roedd un ALLau wedi treialu picenni'r Grog a gweld mai ychydig iawn oedd yn dewis y rhain, ac felly cawsant eu tynnu yn ôl.

Disgrifiodd y plant gafodd gyfweiliad frechwast nodweddiadol: 'Gallwn ddewis unrhyw rawnfwyd yr ydym ei eisiau a thost a gallwn gael diod ffrwythau neu laeth. Weithiau gallwn gael ffrwythau sych neu ffrwythau ffres'. Dywedasant nad oedd grawnfwydydd wedi'u gorchuddio â siwgr yn cael eu cynnig iddynt ac nad oeddent yn gallu cael siwgr ar eu grawnfwydydd. Dywedodd lawer ohonynt fod hyn yn beth da a chyfeirio at yr effaith yr oedd gormod o siwgr yn ei chael ar eu dannedd. Soniodd y plant mewn ysgol arall am bwysigrwydd bwyta pum darn o ffrwyth neu lysiau bob dydd a bod y ffrwyth yr oeddent yn ei fwyta yn yr ysgol yn eu helpu i gyrraedd y targed hwn. Dywedodd disgyblion mewn ysgol arall nad oedd unrhyw fwydydd nad oeddent yn eu hoffi yn

gyffredinol a soniwyd am ffresni'r sudd ffrwythau a'r llaeth yr oeddent yn eu hyfed i frechwast yn yr ysgol.

### **Y bwydydd oedd yn cael eu dewis**

Adroddodd staff ALLau fod y swm o ffrwythau ffres a iogwrt oedd yn cael eu dewis yn is na'r hyn yr oeddent wedi ei ragweld. Dywedodd staff arlwygo mai tost, sudd ffrwythau, 'rice krispies' a chreision yd oedd yr eitemau mwyaf poblogaidd gyda disgyblion, ond bod 'shredded wheat' neu iogwrt yn llai poblogaidd. Dywedodd y staff mewn dwy ysgol nad oedd y plant yn hoff iawn o ffrwythau, yn enwedig y coctels ffrwythau a'r eirin gwlanog er bod afalau a bananas yn fwy poblogaidd. Dywedodd un goruchwyliwr fod newid wedi bod mewn arferion bwyta; *'i ddechrau byddent yn dewis popeth, ond erbyn hyn maent yn dewis yn fwy gofalus'*. Roedd hyn yn cynnwys mwy o barodrwydd i fwyta ffrwythau. Yn gyffredinol roedd staff yn adrodd mai ychydig iawn o wastraff a gafwyd.

Roedd penaethiaid yn teimlo fod yr hyn a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel y math o fwyd y dylid ei gynnig yn rhoi dewis ac amrywiaeth ddigonol i ddisgyblion oedd yn golygu y gallai'r plant ddewis yr hyn yr oeddent am ei fwyta. Disgrifiodd un ysgol sut yr oedd plant nad oeddent yn hoffi un math o fwyd yn cael cynnig dognau mwy o'r hyn yr oeddent yn ei hoffi.

Nid oedd ymatebwyr yr ALLau yn teimlo bod y bwyd a gynigiwyd wedi effeithio ar y nifer oedd yn ei ddewis a dywedodd un ymatebydd fod y ddarpariaeth frechwast yn ffordd o ddylanwadu ar ddewis plant o ystyried *'bod angen eu harwain i ffordd oddi wrth bethau yn araf. Mae rhai yn peidio â dod oherwydd nad ydynt yn gallu cael yr hyn y maent yn ei ddymuno'*. Dywedodd nifer o swyddogion ALLau nad oedd diffyg grawnfwydydd wedi'u gorchuddio â siwgr wedi bod yn rhwystr mewn ysgolion. Roedd y farn hon yn cael ei hategi gan benaethiaid a disgyblion. Ychydig iawn o benaethiaid oedd yn teimlo bod y math o fwyd oedd yn cael ei gynnig yn y ddarpariaeth frechwast yn dylanwadu ar y math o ddisgyblion oedd yn mynychu. At hynny, dywedodd sawl un na fyddai'n dderbyniol darparu bwyd nad oedd yn iach. Dywedodd y plant mewn un ysgol nad fyddent yn mynd i'r brechwast os nad oeddent

yn hoffi'r hyn oedd yn cael ei gynnig, gan awgrymu bod y math o fwyd yn briodol.

### **Ymddygiad yn ystod brecwast**

Yn gyffredinol adroddodd ysgolion fod ymddygiad yn ystod y sesiwn frechwast yn dda. Pwysleisiwyd hyn gan lawer o staff arlwyo. Sylw nodweddiadol oedd '*Maent yn blant da mewn gwirionedd ... nid oes gennym lawer i gwyno yn ei gylch*'. Cyfeiriwyd materion o gamymddwyn difrifol neu ymddygiad peryglus at staff uwch yr ysgol. Dywedodd penaethiaid ei fod yn bwysig i'r staff oedd yn darparu brecwast gael y gallu i alw arnynt oherwydd natur heriol rhai o'r disgyblion yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Roedd hyn yn cynnwys lleiafrif o benaethiaid a ddywedodd y byddent yn ymyrryd yn y fenter frechwast dim ond os byddai materion o'r fath yn codi. Byddai'r rhain yn cael eu trin drwy weithdrefnau disgyblu arferol yr ysgol.

### **Gweithgareddau i ddisgyblion yn dilyn brecwast**

Roedd yr angen i ddarparu gweithgareddau i'r plant ar ôl iddynt orffen eu brecwast yn fater a godwyd gan nifer o ymatebwyr. Yn ôl un cynrychiolydd ALI: '*Mae plant yn mynd i ddiflasu ar liwio a gwyllo'r teledu, efallai bydd angen i ni feddwl am weithgareddau eraill, er enghraifft, ffitrwydd, trafod materion ieched*'. Ategwyd y farn hon gan nifer o benaethiaid a ddywedodd bod angen sicrhau nad oedd plant yn eistedd yn segur neu'n gwyllo'r teledu ond eu bod yn cael cyfle i chwarae gêmâu ysgogol neu gymryd rhan mewn rhyw fath o ymarfer. Fodd bynnag roeddent yn mynnu nad oedd modd gwneud hyn gyda'r lefelau cyllido presennol.

## **4.5 Staffio'r fenter**

Roedd staff ALLau a staff mewn ysgolion yn chwarae rolau allweddol wrth gyflwyno menter brechwastau ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### **Rôl staff ALLau**

Teimlwyd bod rôl staff ALI yn hanfodol bwysig i lwyddiant y fenter. Yn benodol, roedd ysgolion yn croesawu ymwneud staff yr ALI oherwydd eu gwybodaeth am gaffael bwyd a materion rheoli ansawdd.



Disgrifiodd ALLau eu gwaith hefyd wrth fonitro a rheoli'r fenter, fel casglu ffigurau presenoldeb i Lywodraeth Cynulliad Cymru a chasglu gwybodaeth am nifer yr oriau a weithiwyd gan staff arlwygo a goruchwylio.

### **Cefndir y staff sy'n cyflwyno brechwastau**

Dywedodd yr holl ALLau fod y staff a gyflogwyd fel goruchwylwyr yn y fenter frechwast eisoes yn gweithio yn yr ysgolion. Roedd y staff hyn yn cynrychioli ystod eang o staff ysgolion, yn cynnwys goruchwylwyr amser cinio a CCD. Roedd y staff hyn wedi derbyn contractau dros dro ar gyfer y rôl oruchwylio.

Teimlwyd gan yr holl ALLau bod defnyddio staff presennol ysgolion o fewn y fenter frechwast yn cynnig manteision oherwydd bod y plant yn eu hadnabod a'u bod yn gyfforddus yn eu gofal. Nododd un swyddog ei fod yn bwysig peidio â: *'chyflwyno gormod o newid yn yr ysgol. Mae'n fuddiol bod y plant yn adnabod y gweithwyr oherwydd ei fod yn eu gwneud yn fwy cyfforddus'*. Dywedodd ALI arall y gallai fod gan staff presennol: *'fwy o wybodaeth am y plant ac mae'r plant yn dod i'w hadnabod yn well, a allai wneud disgyblaeth yn haws.'*

Roedd y penaethiaid yn cefnogi defnyddio'r staff presennol i gyflwyno'r brechwast oherwydd ei fod yn ddymunol bod y staff hyn yn adnabod y plant ac yn deall ethos yr ysgol. Dywedodd un pennaeth: *'Maent yn adnabod y plant - ni cheir unrhyw ddwli gan y plant'*. Weithiau roedd y staff hynny yn gallu nodi materion oedd yn effeithio ar blant mewn sefyllfa anffurfiol na fyddai'n bosib mewn sefyllfa ystafell ddosbarth: *'Mae'r staff yn gwybod ac y gallant sylwi os yw'r plant yn cael problemau teuluol, er mwyn gallu rhoi mwy o gefnogaeth iddynt. Gallant drosglwyddo gwybodaeth sydd wedi ei throsglwyddo iddynt hwy ac fe allai hynny ein helpu i reoli'r disgybl ar y diwrnod hwnnw'*. Ystyriwyd bod hyn yn gyfraniad pwysig i waith bugeiliol ysgolion. Mewn un ALI, cyflogwyd penaethiaid fel goruchwylwyr brechwast.

Roedd staff arlwygo hefyd yn teimlo fod y ddarpariaeth frechwast yn cryfhau perthnasoedd positif o fewn yr ysgol. Yn ôl un ohonynt *'Mae wedi bod yn braf rhedeg brechwast gan fy mod wedi gallu dod i adnabod y disgyblion. Rydych yn cael cyfle i siarad â hwy oherwydd bod llai o*

*frys*'. Pwysleisiodd goruchwyliwr mewn ysgol arall fod eu gwybodaeth am y plant yn cyfrannu at y ddisgyblaeth gan ddweud: *'Rydym yn eu hadnabod ac mae rheolaeth gennym lle na fyddai gan rywun newydd yr un rheolaeth'*.

Dywedodd pob pennaeth fod gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael eu cynnal bob amser ar staff oedd yn gweithio yn y ddarpariaeth frecwast cyn iddynt ddechrau ar eu dyletswyddau, oedd yn weithdrefn safonol i bob oedolyn oedd yn gweithio gyda phlant.

### **Recriwtio staff**

Adroddodd rhai ALLau nad oeddent wedi profi unrhyw anawsterau wrth recriwtio staff arlwy. Mewn llawer o achosion roedd y staff arlwy presennol yn cyflwyno'r fenter frecwast ac yna yn cael hoe cyn paratoi'r ciniawau ysgol.

Fodd bynnag, roedd ALLau eraill wedi profi anawsterau wrth recriwtio staff. Er enghraifft, roedd un ALLau mewn ardal wledig yn pryderu a fyddai modd cael hyd i staff digonol i baratoi a gweini brecwast yn yr holl ysgolion cynradd. Cafwyd anhawster penodol mewn ysgolion nad oedd ganddynt gegin gynhwysfawr, a ddiffiniwyd fel *'canolfannau bwyta.'* Mewn un achos datryswyd hyn drwy ymestyn yr oriau ar gyfer staff arlwy oherwydd bod: *'materion am geginau bach lle y gall y cogydd ddod i mewn am 10.30am ac felly efallai bydd gennym rhywun yn gweithio yno tan 9am ac yna mae angen llenwi'r awr a hanner yna arnon ni.'*

Roedd rhai ALLau yn teimlo oherwydd bod y fenter frecwast yn dechrau am 8am y bore, gallai'r farchnad *'naturiol'* ar gyfer staff fod yn gyfyngedig. Fel y dywedodd un swyddog ALI: *'pwy sy'n dymuno dod i'r gwaith am awr? Gallai pobl sydd ar gymorthdaliadau gollu eu cymorthdaliadau'*. Teimlwyd hefyd fod yr oriau gwaith yn rhwystr mawr i recriwtio staff. Teimlwyd y byddai llawer o staff posib yn ei chael yn anodd ymrwmo i swydd oedd yn golygu gweithio yn gynnar yn y bore oherwydd ffactorau oedd yn cynnwys anghenion gofal plant.

Adroddodd un ALI fod nifer o wahanol ddatrysiadau wedi eu canfod i'r heriau a gyflwynwyd gan recriwtio. Er enghraifft, mewn un ALI adroddwyd bod:

*un o'n cogyddion yn gwneud y gwasanaeth brechwast ar gyfradd wahanol i'w chyfradd (uwch) arferol ond nid oedd pawb yn fodlon derbyn hynny. Mewn un achos fe wrthododd y cogydd ac mae gennym ddau gynorthwydd arlwygo yn ei redeg gyda'r cogydd yn gwneud yr archebu yn unig.*

Mewn ALI arall, cyflogwyd cogydd i baratoi a gweini brechwast mewn ysgol wahanol i'r un yr oedd yn paratoi ac yn gweini cinio ynddi. Dywedodd fwyafrif y staff arlwygo oedd yn cyflwyno'r brechwastau fod yr oriau ychwanegol yn addas iddynt a'u bod yn gweddu'n iawn i'w hymrwymiaadau gwaith eraill. Fodd bynnag, dywedodd cogydd mewn un ysgol ei bod hi wedi ymwneud â'r ddarpariaeth frechwast ond wedi cael bod yr ymrwymiad ychwanegol wedi bod yn ormod iddi.

Ni wnaeth unrhyw benaethiaid adrodd am unrhyw anawsterau wrth recriwtio staff goruchwyllo. Er enghraifft, dywedodd un pennaeth ei fod wedi bod yn fater syml o ofyn i'r goruchwylwyr amser cinio wirfoddoli. Fodd bynnag, dywedodd un pennaeth ei fod weithiau yn anodd cadw staff, ar gyfer y fenter frechwast ac yn fwy cyffredinol. Dywedodd y pennaeth fod hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â staff yr oedd eu contractau yn golygu nad oeddent yn cael eu tâl llawn yn ystod cyfnodau gwyliau.

### **Trefniadau contractau staff**

Un thema gyson a amlygwyd gan ALLau oedd swm yr amser a ddyrannwyd i staff arlwygo ar gyfer y fenter frechwast; roedd y peilot yn cynnig cyllid am un awr ar gyfer pob aelod o'r staff arlwygo. Cafwyd bod hyn yn annigonol gan nifer o ALLau ac roedd un ALI wedi cynnal astudiaeth amser a symud i nodi lle y gellid gwneud unrhyw arbedion amser posib. Er y nodwyd rhai arbedion, dywedodd y rheolwr arlwygo fod awr yn dal i fod yn annigonol i baratoi, gweini a chlirio'r brechwastau. Nododd y swyddog dan sylw: '*nid wyf yn barod i roi'r staff o dan bwysau oherwydd gallai hyn achosi damweiniau*'. Yn yr ALI hwn, adroddwyd bod staff arlwygo yn cofnodi mwy nag awr y dydd ar gyfer y fenter frechwast yr oedd yn rhaid talu ar ei gyfer o'r arian a dderbyniwyd

gan yr ALI i gyflwyno'r cynllun ac roedd swyddogion yn teimlo bod hwn yn fater yn oedd yn rhaid mynd i'r afael ag ef.

Ystyriwyd bod y lefelau cyflog ar gyfer staff arlwygo yn fater gan leiafrif yr ALLau. Nododd un fod 'staff cegin ar gyfraddau cyflog gwahanol yn ôl maint y safle a dim ond y gyfradd is sy'n unol â chyfraddau'r Cynulliad'.

### **Lefelau staffio**

Dywedodd y penaethiaid fod y lefelau staff goruchwylio a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y fenter frecwast yn briodol. Mewn un ysgol, teimlwyd bod y staffio yn ddigonol i alluogi goruchwylwyr i fynd â'r plant allan i chwarae ar ôl iddynt fwyta eu brechwast. Adroddwyd ychydig yn unig o broblemau gyda'r lefelau goruchwylio er bod un ysgol beilot wedi dweud nad oedd cael dau aelod o staff ar gyfer 30 o ddisgyblion yn ddigonol oherwydd eu bod wedi sylwi bod angen un i oruchwylio'r disgyblion ar ôl iddynt orffen bwyta.

Codwyd nifer o faterion gan ymatebwyr ynghylch natur yr oruchwyliaeth o fewn y fenter frecwast. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch beth ddylai'r disgyblion ei wneud ar ôl iddynt fwyta eu brechwast, ac effaith ffactorau fel salwch staff ar nifer gwirioneddol y goruchwylwyr oedd yn bresennol. Yn ôl yr arweiniad drafft ar gyfer y fenter frecwast nid oedd gofyniad i ddarparu unrhyw weithgareddau i ddisgyblion ar ôl iddynt fwyta eu brechwast, fodd bynnag, gofynnodd un ymatebydd *'Ar ôl iddynt fwyta yr hyn y maent wedi'i fwyta, mae angen gofalu amdanynt a'u goruchwylio o hyd. Ni all y peth ymwneud â bwyd yn unig'*.

Gofynnodd ymatebydd arall oedd yn ystyried bod y lefelau staffio presennol yn briodol y cwestiwn canlynol 'mae'n dibynnu os ystyrir y peth fel goruchwyliaeth neu ofal plant. I ble maent yn mynd ar ôl gadael y bwrdd brechwast? Beth os fyddant yn mynd i'r iard a bod argyfwng yn codi?'

### **Rolau penaethiaid**

Roedd nifer o ALLau yn cydnabod er nad oedd yn ofynnol i benaethiaid fod yn bresennol yn yr ysgol yn ystod y fenter frecwast, roedd llawer

ohonynt yn bresennol ac roedd un ALI yn cydnabod bod: *'rhaf penaethiaid yn gweithredu fel uwch oruchwylwyr gan na fyddent yn hapus i'r peth ddigwydd heb fod athrawon yn bresennol'*. Nodwyd hyn, fodd bynnag, fel mater i benaethiaid ei ddatrys drostynt eu hunain.

### **Effaith y fenter frecwast ar lwyth gwaith y staff**

Roedd rhai penaethiaid yn teimlo nad oedd eu llwyth gwaith wedi cynyddu o ganlyniad i'r fenter frecwast a dywedasant fod yr oriau ychwanegol wedi bod yn fodd i nifer o'r goruchwylwyr ychwanegu at eu horiau presennol. Lle'r oedd penaethiaid wedi profi ychydig o gynnydd o safbwynt gwaith ychwanegol, roedd y gwaith papur yn cael ei wneud naill ai gan aelod o staff yr ysgol oedd yn gyfrifol am y fenter frecwast neu gan yr ALI. Dywedodd un pennaeth *'byddaf yma o 8.30 a ddim cyn hynny'*. Mewn un ALI cynhaliodd y pennaeth gyfweiliad â phawb oedd yn gweithio fel goruchwylwyr brechwast ac yn cael eu talu'n ychwanegol am y gwaith hwn. Yn ôl dau ohonynt, roedd yn hanfodol iddynt fod yno er mwyn sicrhau disgyblaeth. Dywedodd un ohonynt *'os byddwch yn colli disgyblaeth yn gynnar yn y bore yna mae hi wedi canu arnoch chi am weddill y dydd'*.

Dywedodd penaethiaid eraill er nad oedd yn ofynnol iddynt hwy neu eu dirprwyon i fod yn bresennol, roeddent yn teimlo dyletswydd i fod ar y safle pan oedd y ddarpariaeth frecwast yn cael ei chynnal. Yn ôl un ohonynt: *'Y pwynt yw na fyddwn yn fodlon i unrhyw beth redeg yn fy ysgol heb fy mod innau neu fy nirprwy yn bresennol ... rydym mewn ardal gyfnewidiol gyda disgyblion a rhieni ansefydlog. Ni fyddai'n ddoeth cymryd y risg o adael y disgyblion heb fod rhyw fath o athro o gwmpas ... felly mae'n gosod baich arall arnaf i, mae'n un elfen arall o bwysau'*. Cydnabuwyd y mater hwn gan un swyddog ALI a ddywedodd: *'Mae'n eironig mewn cyfnod lle rydym yn ceisio ysgafnhau'r baich ar benaethiaid rydym yn ei dynnu allan o flaen y fan a'i ychwanegu at y cefn'*.

## **4.6 Cyllido'r fenter**

Gofynnwyd i ALIau a oeddent yn ystyried bod y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddigonol a hefyd a ddarparwyd

arian ar gyfer gwahanol fathau o wariant, er enghraifft, bwyd neu gostau staff. Gofynnwyd iddynt hefyd am eu barn ar swm y cyllid a ddarparwyd ar gyfer y fenter frecwast o'i gymharu â'r hyn a ddarparwyd ar gyfer ciniawau ysgol.

### **Trefniadau cyllido**

Roedd yr holl ALLau gafodd gyfweiliad yn derbyn cyllid ar gyfer y fenter frecwast gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn seiliedig ar y ffigurau anfonwyd i mewn ganddynt ar gyfer staffio, costau bwyd a chostau sefydlu cychwynnol. Defnyddiwyd hyn i gyflwyno'r ddarpariaeth mewn ysgolion er mewn sawl achos lleiafswm o'r arian oedd yn cael ei drin gan yr ysgolion eu hunain, a gwnaed taliadau gan yr ALLau. Roedd hon yn system oedd yn addas ar gyfer mwyafrif yr ysgolion gan ei bod yn lleiafu'r gwaith gweinyddol yr oedd yn rhaid iddynt ymgymryd ag ef. Fodd bynnag, mewn un 'ysgol llyfr siec' roeddent yn rheoli'r gyllideb eu hunain ac yn talu'r holl filiau; roedd yr ysgol yn teimlo bod hyn yn ffordd fwy effeithlon o weithio ond nodwyd bod oedi yn digwydd weithiau wrth iddynt hawlio gwariant yn ôl gan eu ALI.

### **Lefelau cyllido ar gyfer y fenter frecwast**

Yn gyffredinol, roedd ALLau yn fodlon ar y lefel o gyllido ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth mewn ysgolion. Fodd bynnag, cododd sawl ALI faterion ynghylch cyflwyno'r ddarpariaeth, oedd yn seiliedig ar 75 y cant o'r plant yn dewis defnyddio'r ddarpariaeth. Adroddodd pob ALI nad oedd y lefel hon yn cael ei chyrraedd mewn unrhyw ysgol.

Roedd rhai ALLau yn anfodlon â'r lefel o gyllido ar gyfer y bwyd. Roedd tri yn credu nad oedd y swm a ddyrannwyd fesul disgybl y dydd yn ddigon i ddarparu'r ystod o fwydydd a amlinellwyd yn yr arweiniad drafft. Dywedodd un ohonynt er mwyn darparu'r brechwast a amlinellwyd yn yr arweiniad drafft: 'Awgrymon ni 50c, ond dim ond 25c mae'r Cynulliad wedi ei roi i ni. Eglurwyd iddynt nad yw hyn yn ddigon hyd yn oed ar gyfer y pethau sylfaenol'. Rhannwyd y farn hon gan ALI arall, oedd yn credu ei fod mewn

*proses cyw ac wy ... barn yr ALI ar hyn o bryd yw bod y gwariant lawer yn uwch na'r symiau arweiniad a roddwyd gan y Cynulliad. Rwy'n gwybod bod y Cynulliad yn fodlon adolygu'r gwariant ond ar hyn o bryd nid oes digon o ffeithiau ganddynt. Mae angen i ni*

*eu helpu i gael y ffeithiau cyn gynted â phosib er mwyn iddynt lunio adroddiad fydd wedyn yn rhesymoli'r cyllid.*

Roedd ALI arall yn teimlo y byddai'r gwariant ar ddarparu brechwast lawer yn uwch na'r cyllid a dderbyniwyd ac felly byddai angen i'r ALI gynnig cymhorthdal ar gyfer hwn mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, roedd ALLau eraill yn gwrth-ddweud hyn gan nodi pe bai angen iddynt gefnogi'r fenter o'u cyllidebau eu hunain y byddent yn tynnu allan o'r peilot. Roedd hyn yn adlewyrchu pryder ymysg ysgolion a chafwyd tystiolaeth o hyn gan ALI oedd yn adrodd y gofynnwyd i staff '*warantu na fyddai unrhyw gyllideb arall yn cael ei heffeithio gan hyn (y fenter frechwast)*'.

Roedd ALLau eraill yn teimlo ei fod yn rhy gynnar i wneud sylwadau ar lefel y cyllid ar gyfer bwyd oherwydd mai swm cyfyngedig o ddata oedd ar gael iddynt.

Dyweddodd sawl ALI fod angen ail-edrych ar swm y cyllid a ddarparwyd ar gyfer staff arlwyo. Er enghraifft, nododd un ALI: '*Mae'r Cynulliad yn darparu £4.60 ar gyfer staff ac nid yw'n cysylltu ag unrhyw raddfa staffio sydd gennym, ac nid yw'n cynnwys argostau fel Yswiriant Gwladol*'. Nododd mwyafrif yr ALLau gafodd gyfweiliad hefyd nad oedd y cyllid yn ddigonol oherwydd: '*Roedd cost y llafur 16-18c yn brin oherwydd bod y gyfradd LGC genedlaethol ac argostau yn fwy na £6.40 yr awr*'.

Gofynnwyd i ALLau hefyd gan yr ysgolion i ystyried a ddylai ysgolion hawlio'r gost i staff gofalu agor yr adeilad yn gynharach nag arfer yn ogystal â'r gwres a'r trydan ychwanegol oedd eu hangen ar y ddarpariaeth frechwast gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd un ALI yn cwestiynu'r effaith ar weinyddu pan ac os fyddai'r rhaglen yn cael ei hystyngi i bob ysgol; mae aelod o'r staff ar hyn o bryd yn gweinyddu'r cynllun ar ran nifer bach o ysgolion, ond nid oedd y swyddog ALI yn sicr a fyddai modd hawlio'r amser gweinyddu hwn yn ôl.

Roedd mwyafrif yr ysgolion yn teimlo fod y cyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddigonol. Fodd bynnag, roedd un

ysgol yn anghytuno a chyfeiriodd yn benodol at broblemau yr oedd wedi dod ar eu traws oherwydd, ym marn y pennaeth, roedd nifer y staff oedd yn paratoi brecwast yn annigonol.

#### **4.7 Cymharu â chyllid ar gyfer prydau ysgol**

Dywedodd rhai ALI, yn eu profiad hwy, fod y cyllid a ddarparwyd ar gyfer brecwastau ysgol yn fwy na'r hyn a ddarparwyd ar gyfer ciniawau ysgol. Yn ôl un ohonynt: *'Mae pris gweini darn o dost yn anhygoel. Rydym yn cael £1.33 gan y cyngor i ddarparu cinio dau gwrs ac mae'n costio ymhell dros £2.50 i ddarparu darn o dost i frecwast. Nid wyf yn credu mai gwariant gwerth gorau yw peth felly.'*

#### **4.8 Y nifer sy'n dewis brecwastau a'u heffaith**

Roedd mesur y nifer oedd yn dewis cael brecwast a'r effaith yn ffordd bwysig iawn o nodi cryfderau ac amlygu unrhyw heriau i gyflwyno brecwastau ysgol yn effeithiol.

Cymharwyd data presenoldeb o cyn i'r rhaglen frecwast ddechrau ac o'r flwyddyn y dechreuwyd ar y rhaglen frecwast ar gyfer ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen frecwast er mwyn archwilio effaith y rhaglen ar bresenoldeb. At hynny, archwiliwyd nodweddion cymdeithasol-economaidd yr ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen frecwast yng nghyd-destun holl ysgolion cynradd Cymru. Roedd y dadansoddiad yn awgrymu nad oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol mewn presenoldeb rhwng ysgolion y rhaglen frecwast a'r rheiny nad oeddent yn derbyn y rhaglen frecwast eto. Dylid nodi bod maint bach y sampl yn debygol o guddio unrhyw effaith gafodd y rhaglen ar bresenoldeb.

##### **Mesur yr effaith**

Cynhaliwyd y cyfweiliadau yn gynnar yn ystod cyflwyno'r fenter frecwast, ac felly roedd llawer o ALIau ac ysgolion yn teimlo mai sylwadau cychwynnol yr oeddent yn gallu eu cynnig ynghylch effaith y ddarpariaeth. Nid oedd unrhyw ALI yn gallu adrodd fod systemau



ffurfiol yn eu lle i fesur yr effaith, ac roedd un yn cydnabod efallai na fyddai dulliau ffurfiol fel arolwg ar ffurf holiadur yn denu ymateb sylweddol gan rieni. Roedd yr adborth oedd yn gysylltiedig ag effaith yn seiliedig ar y cyswllt anffurfiol dydd i ddydd yr oedd llawer o'r ymatebwyr ALLau yn ei gael gydag ysgolion. Gellir derbyn yr adborth hwn wrth drafod darpariaeth prydau ysgol arall ac fe'i ystyrir yn rhywbeth anecdotaidd, fel y dywedodd un ymatebydd: *'Mae'r plant sy'n bwyta brechwast yn ymddangos yn fwy sefydlog a thawel, ond sut mae mesur hynny?'* Roedd un ymatebydd ALI yn ystyried gan nad oeddent wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol gan ysgolion mewn perthynas â'r ddarpariaeth yr oeddent yn tybio bod yr ysgolion yn fodlon ar y ddarpariaeth.

Nododd un ymatebydd ALI y dylid bod yn ofalus wrth ystyried effaith darparu brechwast mewn ysgolion oherwydd:

*Byddai hon yn dasg afrealistig. Ni allwch briodoli gwelliannau mewn perfformiad i frechwastau ysgol a byddai'n mynd yn rhy bell i drio gwneud cysylltiadau rhwng y ddau beth. Ni fyddai sail wyddonol iddo.*

### **Presenoldeb yn y sesiwn brechwast**

Nododd nifer o ALI fod y lefelau oedd yn dewis cael brechwast wedi gostwng o'u cymharu â'r rheiny a gofnodwyd cyn y Nadolig. Priodolwyd hyn i'r tywydd a boreau tywyllach. Nododd nifer ohonynt hefyd fod y lefelau oedd yn dewis cael brechwast yn is na'r hyn yr oedd wedi'u rhagweld yn wreiddiol. Adroddodd un ALI:

*Ar un adeg roedd gennym ddarpariaeth lwyddiannus a gyllidwyd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd oedd yn denu presenoldeb o 40 y cant. Nawr cyfartaledd o tua 22 y cant yr ydym yn ei gael yng nghynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru. Efallai y gellir priodoli hyn i'r stigma bod y cynllun yn ymwneud â phlant tlawd yn cael brechwast, sef yr un stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim. Yn eironig, roedd mwy o blant yn dewis cael brechwastau pan yr oeddem yn codi tâl isel amdanynt.*

### **Ffactorau sy'n dylanwadu ar bresenoldeb**

Er y cydnabuwyd nad oedd y fenter wedi bod yn rhedeg yn ddigon hir i allu llunio barn bendant am batrymau presenoldeb, roedd tystiolaeth yn dechrau ymddangos am y ffactorau oedd yn dylanwadu ar

bresenoldeb. Roedd golau dydd a'r tywydd yn dylanwadu ar bresenoldeb amser brechwast mewn rhai ardaloedd, gyda phresenoldeb uwch yn ystod boreau golau a thywydd braf. Nodwyd patrymau eraill o safbwynt presenoldeb gan benaethiaid. Roedd un pennaeth wedi sylwi pan oedd un aelod o deulu yn dewis cael brechwast roedd y brodyr a'r chwiorydd fel arfer yn gwneud yr un peth. Dywedwyd hefyd pan oedd disgybl yn penderfynu dod byddai ei ffrindiau yn aml yn ymuno hefyd. Roedd presenoldeb rhai disgyblion yn anwadal yn dibynnu at batrymau shifftiau eu rhieni.

### **Natur y disgyblion yn mynychu brechwast**

Roedd lleiafrif o ALLau yn cwestiynu a oedd y disgyblion hynny oedd yn mynychu'r ddarpariaeth yn ddisgyblion yr oedd yr ysgol yn gwybod efallai nad oeddent yn bwyta brechwast gartref. Yn ôl un ALI:

*Faint o rieni sy'n mynd i'w ddefnyddio er mwyn cael gwared ar eu plant yn gynharach? Mae hynny wedi digwydd mewn un ysgol. Cawsom ymholiad mewn un ysgol lle roeddem yn agor y drysau am 8.15 a chael bod rhieni yn ciwio am 8.00, felly gofynnwyd i ni agor y drysau yn gynharach, ond nid yw'r niferoedd wedi cynyddu.*

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo: 'Nid yw'r cynllun yn targedu'r plant sydd ei angen fwyaf'. Fodd bynnag, roedd dau ALLau arall yn teimlo: 'Rydym yn cipio'r math cywir o ddisgyblion.'

Roedd rhan fwyaf y penaethiaid yn teimlo mai nod pwysicaf yn ddarpariaeth frechwast oedd ei bod yn darparu pryd i'r plant hynny fyddent fel arfer yn cyrraedd yr ysgol heb gael rhywbeth i'w fwyta. Dywedodd tri ohonynt fod y rhaglen yn cyrraedd y plant mwyaf anghenus. Yn ôl un: 'Rydym yn ymestyn y diwrnod ysgol ar gyfer rhai o'r disgyblion mwyaf ansefydlog'. Dywedodd dau ohonynt eu bod yn gwybod bod y plant wedi paratoi eu hunain i ddod i'r ysgol ac na fyddent wedi cael brechwast. Yn ôl un pennaeth: 'Mae rhai teuluoedd yn cyrraedd yn gynharach yn y bore ond rydym yn gwybod bod eu mamau yn dal yn y gwely a bod y plant wedi cael eu hunain yn barod ac wedi gwisgo eu hunain'. Dywedodd un pennaeth gyda phrofiadau tebyg yn y gorffennol y byddai nifer o'r plant hynny wedi prynu eu brechwast eu hunain, fel arfer bag o losin neu siocled, ar y ffordd i'r ysgol. Cafwyd yr un sylw gan oruchwyliwr mewn ysgol arall a ddywedodd eu bod erbyn

hyn yn cael brechwast iawn, lle yn y gorffennol: *'Efallai y byddent wedi cael eu hanfon i'r ysgol gyda bisged yn eu llaw'*. Dywedodd dau bennaeth arall na fyddai rhai o'r disgyblion oedd yn manteisio ar y ddarpariaeth frechwast wedi bwyta cyn iddynt ddod i'r ysgol er eu bod yn pwysleisio nad oedd hyn yn wir mewn perthynas â phob disgybl.

Rhybuddiodd un dirprwy bennaeth ei fod yn bwysig fod pob disgybl yn cael y cyfle i fynychu. Cyfeiriodd at awgrymiadau yr oedd wedi'u clywed mai dim ond y disgyblion hynny oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim ddylai gael brechwast am ddim; roedd yn credu'n gryf bod y trefniadau presennol yn llawer gwell nag unrhyw awgrymiadau o'r fath.

Nid oedd tri phennaeth wedi'u hargyhoeddi fod y rhai mwyaf anghenus yn elwa o'r fenter frechwast. Dywedodd un: *'Nid yw'r plant yr oeddwn i fwyaf eu heisiau i gael brechwast yn dod – ni chafwyd unrhyw effaith yna'*. Yn wir, fe'i gwelwyd fel rhywbeth oedd yn *'gyfleus i deuluoedd sy'n gweithio ar hyn o bryd'*. Roedd wedi bod yn anodd darbwyllio rhai rhieni i anfon eu plant i'r brechwast (weithiau oherwydd y byddai'n rhaid i rieni ddod â'u plant i'r ysgol yn gynharach) a bod hyn yn golygu nad oeddent yn cyrraedd pob un o'r rheiny y byddent yn hoffi eu gweld yn defnyddio'r ddarpariaeth. Pwysleisiwyd hefyd bod siarad â'r rheini yn fater sensitif a lletchwith. Un sylw cynrychioliadol oedd: *'Mae'n rhaid i chi fod yn ofalus iawn wrth siarad â rhieni am y pwnc hwn ... ni allwch gael eich gweld yn dweud "nid yw eich plentyn yn bwyta brechwast" ... Rwyf wedi dweud wrth rieni mai cyfle arall yw hwn'*.

Pwysleisiwyd hefyd bod llawer o rieni yr oedd ysgolion o bosib wedi meddwl y byddent yn awyddus i'w plant gael y cyfle o gael brechwast am ddim wedi penderfynu peidio â gwneud hynny ac yn rhoi brechwast i'w plant gartref.

### **Effaith ar bresenoldeb, cymhelliant a chyrhaeddiad disgyblion**

Roedd rhan fwyaf yr ALLau yn teimlo bod peth tystiolaeth fod cyflwyno darpariaeth frechwast wedi dylanwadu ar ddisgyblion mewn ffyrdd oedd yn cynnwys:

- disgyblion yn fwy sefydlog yn yr ysgol
- gwell sgiliau cymdeithasol gan ddisgyblion

- gwell perthnasoedd rhwng staff a disgyblion
- gwell ymddygiad
- gwell presenoldeb ymysg rhai disgyblion
- gwell awyrgylch yn yr ysgol.

Roedd rhan fwyaf y penaethiaid yn teimlo fod plant oedd yn bwyta brecwast yn yr ysgol yn elwa o wneud hynny. Er enghraifft, cyfeiriodd un at dystiolaeth ansoddol fod plant yn canolbwyntio mwy. Dywedodd dau ohonynt ei fod yn glir fod gan ddisgyblion fwy o egni yn y boreau. Dywedodd un arall: *'Efallai na fyddai rhai disgyblion wedi cael brecwast sy'n dda o safbwynt maeth, ac mae nawr yn cael effaith ddramatig ar eu hagwedd tuag at waith ac mae hyn wedi cael effaith ar eu dysgu. O ganlyniad yr wyf wedi gweld bod hunan-barch wedi codi hefyd'*. Fodd bynnag, roedd penaethiaid eraill yn fwy gofalus. Yn ol dau ohonynt, roedd angen monitro'r sefyllfa dros gyfnod hwy. Roedd un arall yn credu mai un yn unig o sawl ffactor oedd y ddarpariaeth frecwast oedd yn dylanwadu ar ganolbwyntio disgyblion, a bod mentrau eraill fel cael dŵr ar ddesgiau, y siopau bwyd iach oedd yn cael eu rhedeg mewn rhai ysgolion a'r amgylchedd dysgu ac addysgu cyffredinol hefyd yn ffactorau allweddol. Nodwyd hefyd fod rhai disgyblion yn colli llai o wersi oherwydd eu bod yn cyrraedd yn gynnar er mwyn mynychu'r ddarpariaeth frecwast.

Roedd un pennaeth yn teimlo fod prydlondeb wedi gwella oherwydd bod plant oedd wedi tueddu i gyrraedd yn hwyr ar ddechrau'r diwrnod ysgol bellach yn cyrraedd yn gynnar i gael brecwast. Fodd bynnag, nododd un arall fod hyn yn dal i fod yn fater ac er bod y fenter frecwast wedi helpu nid oedd o bell ffordd wedi datrys y broblem.

Adroddodd un ymatebydd ALI y cafwyd effeithiau mawr o fewn un ysgol benodol lle y ceir gerllaw:

*wersyll teithwyr ac mae'r pennaeth yn dweud ei fod yn fendith oherwydd bod angen brecwast ar y plant er mwyn gallu ymdopi â'r hyn y maent wedi'i weld y noson gynt ac yn y bore. Mae angen cyfnod tawelu o hanner awr arnynt a gyda'r brecwast maent yn tawelu yn yr amser yna. Mae'n fanteisiol i'r plant ac i'r ysgol oherwydd eu bod yn fwy effro i gael eu haddysgu yn syth. Pan ddechreuodd y fenter gyntaf byddai brawd 16 oed a'i chwirydd yn dod i gael brecwast.*

Fodd bynnag, roedd ALI arall wedi cynnal ychydig o waith gydag ysgolion yn ymwneud â darparu brechwast yn yr ysgol oedd wedi dangos:

*Presenoldeb isel, dim digon o ddewis o fwyd, ffurf rad ar ofal plant, stigma rhywbeth sydd am ddim, diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y plant, costau cudd a'r ffaith nad yw'r cyllid yn ystyried y rhain.*

### **Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bwyta brechwast**

Roedd yn glir nad oedd y fenter frechwast wedi bod yn rhedeg yn ddigon hir i alluogi llunio barn bendant ynghylch i ba raddau ei bod wedi hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bwyta brechwast a syniadau ehangach ynghylch maeth. Dywedodd un sylwebydd: 'Byddai angen i chi dracio'r plant hynny ymhen deng mlynedd i weld os oedd hynny wedi digwydd'. Er hynny, tystiolaeth gyfyngedig oedd ar gael fod y negeseuon hyn yn cael eu derbyn gan ddisgyblion. Yn ôl un pennaeth, byddai'r fenter frechwast yn '*sefydlu arferion brechwast da*', ac roedd yn teimlo bod hynny'n bwysig.

Roedd y disgyblion yn credu ei fod yn bwysig dros ben i fwyta brechwast. Yn ôl un grŵp dyna bryd pwysicaf y dydd. Un neges oedd ei fod yn ffordd o gadw'n iach. Pwysleisiodd plant eraill ei fod yn bwysig osgoi teimlo chwant bwyd yn ystod y diwrnod ysgol. Yn ôl un ohonynt, roedd peidio â gwneud hynny yn effeithio ar ganolbwyntio oherwydd: '*Mae'n anoddach gwrando ar fy athro nac ar fy stumog*'. Sylw arall oedd bod bwyta brechwast: '*yn rhoi mwy o allu i chi wneud mwy o waith ... mae angen bwyd arnoch cyn gwneud unrhyw beth yn y bore*'.

### **Ymwybyddiaeth o faeth**

Roedd lleiafrif o benaethiaid yn teimlo fod y fenter frechwast wedi dylanwadu ar ganfyddiadau disgyblion am faeth a ffordd o fyw iach. Disgrifiwyd effaith y negeseuon positif hyn gan un pennaeth a gyfeiriodd at dystiolaeth ansoddol gan fanwerthwyr lleol fod plant yn dymuno i'w rhieni brynu ffrwyth iddynt. Fodd bynnag, dywedasant y gallai'r fenter frechwast fod yn un o sawl dylanwad positif. Dywedodd un pennaeth: '*mae'r ethos bwyd yn gyffredinol yn well nawr ac maent yn dewis opsiynau mwy iach*'. Sylw arall oedd: '*mae unrhyw beth y*

*gallwch ei wneud fel mater hybu iechyd o fewn ysgol yn fuddiol ... [ond] nid un peth ydyw, ond yn hytrach ethos cyffredinol yr ysgol'.*

Ychydig iawn o benaethiaid oedd yn teimlo bod y fenter frecwast wedi cynyddu ymwybyddiaeth o faterion ynghylch maeth yn y gymuned ehangach ac roeddent yn teimlo byddai effaith o'r fath yn anodd iawn i'w mesur. Dywedodd rhai plant eu bod wedi siarad â'u rhieni am y math o fwyd yr oeddent yn ei gael yn yr ysgol a materion eraill yr oeddent yn dysgu amdanynt drwy themâu hybu iechyd eu hysgolion. Fodd bynnag, dywedodd pennaeth oedd wedi trafod mater maeth gyda manwerthwyr lleol bod rhai ohonynt wedi datgelu er bod plant yn gofyn am ffrwyth '*nid yw'r rhieni yn ei brynu*'. Fodd bynnag pwysleisiodd un ohonynt y byddai'r neges yn treiddio i'r gymuned yn y pen draw o ystyried bod disgyblion sydd wedi cael eu meithrin mewn ymwybyddiaeth o bwysigrwydd brechwast iach yn fwy tebygol o gofio hynny yn ddiweddarach mewn bywyd.

#### **4.9 Arfer da ym menter y Cynulliad Cenedlaethol**

Gofynnwyd i ymatebwyr os yn ystod cyfnodau cychwynnol y peilot eu bod wedi nodi agweddau ar arfer da yn y ddarpariaeth o frecwastau ysgol o fewn eu ALIau. Mae'r materion a godwyd gan y cynrychiolwyr ALI yn canolbwyntio ar yr angen i:

- ddefnyddio staff arlwygo presennol yr ALI
- meithrin agweddau positif tuag at y ddarpariaeth ar ran penaethiaid
- sicrhau cyfathrebu dwy ffordd rhwng ysgolion a'r ALI
- cadw dewisiadau bwyd yn syml
- defnyddio cyflenwyr y mae'r ALI eisoes yn caffael bwyd ganddynt
- defnyddio staff presennol ysgolion fel staff goruchwylio
- integreiddio'r fenter i mewn i bolisiâu ehangach yr ALI.

Roedd defnyddio staff arlwygo presennol yr ALI wrth gyflwyno brechwast yn nodwedd gyffredin ym mhob ALI a nodwyd ei bod wedi cynorthwyo wrth gyflwyno'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Roedd hyn oherwydd bod gan y staff brofiad sylweddol o gyflwyno prydau ysgol. Roedd yn fanteisiol hefyd i gyflogi staff goruchwylio oedd yn gyfarwydd â'r

disgyblion oedd yn cymryd rhan yn y ddarpariaeth frechwast a hefyd gyda threfn yr ysgol.

Ystyriwyd bod ymagwedd bositif gan benaethiaid ysgolion tuag at ddarparu brechwast yn yr ysgol yn elfen allweddol o arfer da. Roedd ymatebwyr ALI yn teimlo efallai y byddai cyflwyno'r cynllun wedi bod yn fwy heriol fel arall. Teimlwyd ei fod yn bwysig bod penaethiaid yn deall yr hyn yr oedd y fenter yn gobeithio ei gyflawni. Roedd eu rôl yn aml yn hanfodol oherwydd roeddent yn y sefyllfa orau i sicrhau bod staff ar draws ysgolion yn ymwybodol o'r fenter a'r manteision cysylltiedig.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau cyfathrebu dwy ffordd rhwng pob ALI a'u hysgolion mewn perthynas â'r fenter frechwast. Roedd hyn yn galluogi i unrhyw faterion a allai godi gael eu trin yn gyflym ac wedi galluogi i ALLau nodi bod llawer o benaethiaid yn ymgymryd â rolau goruchwylio.

Roedd nifer o ALLau yn teimlo drwy ddarparu bwydlen frechwast hyblyg a allai newid o ddydd i ddydd, y gallent wneud y defnydd gorau o'r cyllid a ddarparwyd. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu nad oedd pob ALI yn darparu'r ystod gyfan o fwydydd bob dydd. Teimlwyd bod bwydlen hyblyg oedd yn adlewyrchu'r patrymau bwyta ym mhob ysgol yn cynnig manteision i ddisgyblion ac ALLau.

Nodwyd defnyddio cyflenwyr oedd yn darparu bwyd arall yn faes arfer da gan fod perthnasoedd wedi'u hadeiladu rhwng staff ALI a'r cyflenwyr hyn. Roedd y defnydd o gyflenwyr presennol hefyd yn golygu fod gan staff ALI drefniadau yn eu lle eisoes ar gyfer monitor ansawdd bwyd. Adroddodd nifer o ALLau fod eu cyflenwyr yn lleol ac roedd rhai ALLau yn ystyried sut y gellid cynyddu'r nifer o gyflenwyr lleol er mwyn sicrhau bod y bwyd mor ffres â phosib. Fodd bynnag, roedd amgylchiadau economaidd lleol a rheolau cadarn am gaffael wedi cyfyngu hyblygrwydd ALLau mewn perthynas â hyn.

Roedd un ALI wedi sefydlu gweithgor oedd yn canolbwyntio ar faterion iechyd o fewn ysgolion ac roedd y grwpiau hyn wedi ymwneud â datblygu darpariaeth frechwast yr ALI. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr:

*Clybiau Plant Cymru a'r Fenter Ysgolion Iach, y Bwrdd Iechyd Lleol, deietegydd y GIG, gwasanaeth ymgynghorol y cwricwlwm ABCh. Mae pob un yn cyfrannu o dan ymbarél y strategaeth faeth. Maent yn cynghori ar y fwydlen o fewn canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol, er enghraifft, pa fenyn i'w ddefnyddio, darparu deunyddiau nad ydynt wedi'u gorchuddio â siwgr, canran y bara gwyn i'r bara brown, faint o ffrwyth.*

Cyfeiriodd penaeithiaid at yr angen i sicrhau:

- cefnogaeth effeithiol gan yr ALI
- bod yr oedolion sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth yn rhai y mae'r plant yn eu hadnabod a'u bod yn deall ethos yr ysgol
- bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff ar faterion fel hylendid
- bod presenoldeb disgyblion yn cael ei fonitro
- bod gan blant gyfleoedd i chwarae ar ôl bwyta eu brecwast
- bod materion sy'n ymwneud â ffordd o fyw iach yn cael eu trafod gyda disgyblion, yn cynnwys materion fel peryglon gordewdra.

#### **4.10 Ehangu'r fenter yn y dyfodol**

Mynegodd pob ALI bryderon yn ymwneud â recriwtio a chadw staff wrth i'r ddarpariaeth beilot gael ei hymestyn i gynnwys pob ysgol gynradd erbyn dechrau 2007. Roedd hyn er gwaethaf cydnabyddiaeth gan lawer o'r ALLau fod darparu brecwast yn gweddu ochr yn ochr â mentrau presennol eraill i ymestyn y ddarpariaeth addysgol. Dywedodd un ymatebydd, oherwydd bod y peilot yn cael ei redeg mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf:

*Pan aiff i mewn i ardaloedd mwy cyfoethog gallai staffio fod yn broblem oherwydd rydych yn tueddu i gael mwy o broblemau wrth recriwtio staff yn yr ardaloedd hynny oherwydd bod cyflogaeth arall ar gael.*

Roedd ALLau hefyd yn cydnabod y byddai ysgolion â 'chanolfan fwyta' yn lle cegin yn wynebu heriau, lle y gallai fod angen aelod o staff arlwy o 8am tan 9am ond ni fyddai ganddynt unrhyw ddyletswyddau wedi hynny tan 11am. Roedd ALLau yn pryderu y gallai hyn fod yn rhwystr i recriwtio. Ar yr un pryd roeddent yn pryderu bod y lefelau



cyflog a osodwyd ar gyfer staff arlwyo a goruchwylio yn rhwystr ychwanegol i recriwtio a chadw ar hyn o bryd, yn enwedig pan oedd yr oriau a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethu yn gyfyngedig. Teimlwyd bod hyn yn fater llai pwysig i staff oruchwylio a allai fod yn fodlon ar ymestyn yr oriau o fewn ysgol.

Cafodd yr ymchwil fod yr angen i ystyried darparu gweithgareddau i ddisgyblion ar ôl iddynt orffen bwyta yn bryder mawr arall.

Nododd nifer o ALLau nad oedd rhai pryderon ynghylch trafndiaeth cartref-i-ysgol wedi ymddangos. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth y byddai dechrau'r diwrnod ysgol yn gynharach drwy ddarparu brechwast yn cael effaith ar batrolau croesi ysgolion.

Teimlwyd bod angen hybu ychydig ymhellach union bwrpas ddarparu brechwast mewn ysgolion i rai rhieni.

Dywedodd llawer o ALLau fod angen cynyddu lefel y cyllid, yn enwedig y swm oedd yn cael ei ganiatáu ar gyfer gweinyddu. Ar hyn o bryd, gallai ALLau weinyddu'r system heb staff ychwanegol oherwydd bod nifer yr ysgolion oedd yn cymryd rhan yn y peilot yn gymharol fach. Fodd bynnag, roeddent yn mynnu y byddai angen mwy o staff gweinyddol os byddai'r rhaglen yn cael ei hehangu ymhellach.

Yn yr un modd, adroddodd y penaethiaid nifer o faterion y byddai'n rhaid mynd i'r afael â hwy cyn i'r fenter gael ei hehangu i bob ysgol gynradd yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â thrafnidiaeth ysgol (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig), yr angen i ystyried yn ofalus a oedd y ddarpariaeth frechwast yn gost effeithiol ac a ellid defnyddio'r arian yn fwy effeithiol i hybu cydlynad a chyrhaeddiad mewn ysgolion. Yn ôl un pennaeth, efallai byddai athro neu CCD ychwanegol ar gyfer pob ysgol yn ddefnydd gwell o'r arian. Neges yr un mor gryf oedd nad oedd cyflwyno brechwast yn unig yn ddigon a bod angen datblygu gweithgareddau boreol eraill er mwyn cadw'r plant yn brysur a hefyd er mwyn bod yn fuddiol iddynt yn addysgol ac yn gymdeithasol. Sylw nodweddiadol oedd *'Mae'r plant yn gorffen eu bwyd am 8.40 ac mae'n rhaid i ni eu cadw yn y neuadd tan 8.50 oherwydd nid oes athro ar ddyletswydd iard. Felly maent yn*

*gwyllo'r teledu. Hoffwn gael adnoddau fel gêmâu ac ati y gallent eu chwarae yn ystod yr amser hwnnw yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.*

#### **Canfyddiadau Allweddol**

Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn credu y byddai'r fenter frecwast o fudd o blant yng Nghymru; roedd eraill yn fwy gofalus ac yn dweud nad oeddent wedi'u darbwyllo eto y byddai'n gwneud llawer o wahaniaeth.

Roedd brechwastau ysgol fel arfer yn ategi strategaethau eraill yr oedd ALLau wedi'u datblygu i hybu iechyd, maeth a chyrhaeddiad addysgol.

Roedd barn bositif yn gyffredinol ynghylch y ffordd y cafodd y fenter ei chyflwyno a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddethol ysgolion.

Nid oedd trefniadau trafndiaeth ysgol ar y cyfan wedi cael eu newid i adlewyrchu amseru brechwastau ysgol.

Roedd menter Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi golygu bod rhai ysgolion wedi darparu brechwast am y tro cyntaf; roedd eraill wedi gwneud hynny o'r blaen.

Roedd mwyafrif yr ysgolion yn teimlo bod yr amser arweiniol a roddwyd i baratoi'r fenter wedi bod yn ddigonol.

Roedd ysgolion wedi defnyddio eu strwythurau mewnol i farchnata'r ddarpariaeth i ddisgyblion a rheini.

Roedd rhan fwyaf y bwyd yn cael ei brynu gan gyflenwyr yr ALI ac roedd yn destun yr un gweithdrefnau rheoli ansawdd â'r bwyd arall a ddarparwyd yn yr ysgolion.

Cafwyd cytundeb cyffredinol bod math a swm y bwyd yn briodol, er ei fod yn amlwg bod plant yn fwy hoff o rai bwydydd nac eraill; cafwyd bod plant yn fwy tebygol i fwyta'n iach pa oedd gan ysgolion a/neu ALLau strategaethau datblygedig i bwysleisio ffordd o fyw iach.

Ychydig o broblemau disgyblaeth a brofwyd er bod yr angen i ymgysylltu disgyblion ar ôl iddynt fwyta yn fater a bwysleisiwyd gan nifer yr ymatebwyr.

Roedd mwyafrif y staff oedd yn cyflwyno'r fenter eisoes wedi'u cyflogi mewn rhyw swyddogaeth yn yr ysgolion; fel arfer roedd lefel ymwneud yr athrawon a'r pennaeth yn gyfyngedig; roedd recriwtio staff wedi bod yn fwy heriol mewn rhai ardaloedd nac eraill; yn gyffredinol, teimlwyd bod y lefelau staffio a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn briodol.

Roedd rhai ALLau yn pryderu am y fethodoleg gyllido a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; roedd barn gref na fyddai modd cynnal y fenter o ffynonellau eraill ac eithrio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Defnyddiwyd gwahanol ddulliau i fesur presenoldeb amser brechwast; roedd ystod o ffactorau yn dylanwadu ar bresenoldeb er ei fod yn rhy gynnar i nodi patrymau; roedd y wybodaeth am y math o ddisgybl oedd yn manteisio ar y ddarpariaeth yn ansoddol ar y cyfan; roedd rhan fwyaf yr ysgolion yn teimlo bod y plant mwyaf anghenus yn cael eu cyrraedd ond nad oedd pob disgybl o'r fath yn achub ar y cyfle.

Roedd tystiolaeth ansoddol fod bwyta brechwast yn yr ysgol yn esgor ar fanteision cymdeithasol ac addysgol, ac o ran agwedd; fodd bynnag, roedd yn anodd ynysu dylanwad brechwastau ysgol rhag ffactorau eraill.

Roedd tystiolaeth fod y brechwastau ysgol am ddim yn atgyfnerthu negeseuon ysgolion am bwysigrwydd bwyta brechwast a materion maeth yn gyffredinol.

Nodwyd bod defnyddio staff oedd eisoes wedi'u lleoli yn yr ysgol, cefnogaeth gan uwch reolwyr yr ysgol, cyfathrebu effeithiol, hyblygrwydd o ran y bwyd a ddarperir, cyflenwad dibynadwy o fwyd, a chysylltu'r fenter â rhaglenni eraill ym maes iechyd fel pethau oedd yn cyfrannu at gyflwyno brechwastau ysgol yn effeithiol.

Roedd newidiadau posib i ehangu'r rhaglen yn effeithiol yn cynnwys y posibilrwydd y gallai recriwtio staff brecwast fod yn broblematig, y diffyg cyfleusterau paratoi bwyd digonol mewn rhai ysgolion, materion trafndiaeth ysgolion, a'r angen am gyllid ychwanegol digonol ar gyfer gwaith gweinyddu.

## **5. Darpariaeth brechwastau ysgol nas cyllidir gan fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Mae'r bennod hon yn archwilio profiadau ysgolion lle y cyflwynwyd brechwastau ond nad oeddent yn rhan o fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynhaliwyd cyfres o ymweliadau â phedwar o glybiau brechwast yng Nghymru. Mae Tabl 2 isod yn crynhoi gwybodaeth allweddol am bob un o'r clybiau brechwast yr ymwelwyd â hwy.

Tabl 2: Gwybodaeth allweddol am y clybiau brecwast

	<i>Nifer y disgyblion yn yr ysgol</i>	<i>Nifer yn mynychu bob dydd</i>	<i>Tâl</i>	<i>Bwyd a ddarperir</i>	<i>Amserau Agor</i>	<i>Gweithgareddau a ddarperir, os o gwbl</i>	<i>Sefydlwyd yn</i>
<i>Clwb 1</i>	400	30	<i>10c yr eitem</i>	<i>Tost a margarin, Crympets / sgons, pancos.</i>  <i>Grawnfwydydd - heb eu gorchuddio â siwgr a dim siwgr yn cael ei ganiatáu, sudd/llaeth</i>	7.30-9am	<i>Teledu, radio.</i>	2002
<i>Clwb 2</i>	300	35	<i>2cp</i>	<i>Sudd oren, llaeth a thost</i>	8.30-8.55	<i>Gêmau bwrdd, gêmau cardiau, teledu</i>	1997
<i>Clwb 3</i>	250	12	<i>£2.25 y dydd a £1.7 5i frodyr a chwiorydd</i>	<i>Grawnfwyd, iogwrt, crympets, sudd Hi, llaeth.</i>	8-9am	<i>Gêmau bwrdd, gêmau cardiau, teledu</i>	2003

<i>Clwb 4</i>	<i>N/A</i>	<i>4</i>	<i>1.50</i>	<i>Grawnfwydydd a atgyfnerthwyd, heb eu gorchuddio â siwgr, tost, iogwrt, sudd, llaeth, dŵr</i>	<i>7.45-9am</i>	<i>Gêmau bwrdd, gêmau cardiau, teledu, defnydd o gêmau electronig, defnydd o'r holl offer chwarae</i>	<i>2003</i>

Roedd tri o'r clybiau brechwast yn cael eu rhedeg mewn ysgolion gyda'r clwb arall yn cael ei redeg mewn Canolfan Blant Integredig newydd ei hadeiladu wedi'i lleoli ar safle ysgol.

## 5.1 Rhesymanau dros sefydlu'r clwb brechwast

Sefydlwyd Clwb 1 mewn ymateb i:

*nifer y disgyblion fyddai'n cyrraedd yr ysgol heb frecwast neu'n hwyr i'r ysgol. Mae'r ardal dalgylch o'r grwpiau cymdeithasol economaidd is. Dechreuon ni'n peth fel peilot ac mae wedi sefydlu ei hun mewn ffordd bositif iawn.*

Dywedodd cynrychiolydd yn yr ysgol:

*Mae darparu brechwastau yn beth da iawn. Fel athro roeddem yn arfer darparu brechwast i rai o'r disgyblion gan eich bod yn gwybod nad oedden nhw wedi cael brechwast, ac felly yn hanner cysgu. Mae angen buddsoddi mwy o arian yn y peth, oherwydd os ydych yn mynd i'w wneud e, mae'n rhaid ei wneud e'n iawn.*

Sefydlwyd Clwb 2 fel ffurf ar ofal plant i rieni sy'n gweithio. Roedd y pennaeth yng Nghlwb 2 wedi sylwi bod grŵp o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol heb fwyta brechwast, ac roedd staff wedi adrodd nad oeddent yn canolbwyntio a'u bod yn ymddangos fel petai angen bwyd arnynt yn ystod y dydd. Roedd grŵp o 10-12 o ddisgyblion wedi mynychu ers sefydlu'r clwb.

Sefydlwyd Clwb 3 gan bennaeth yr ysgol ar ôl i Glwb tebyg gael ei sefydlu mewn ysgol gynradd gyfagos, mewn cydweithrediad â meithrinfa breifat. Roedd y pennaeth yn pryderu y gallai'r ysgol golli disgyblion i'r ysgol gyfagos os nad oedd yn gallu cynnig cyfleusterau tebyg.

## 5.2 Cysylltiadau â mentrau ysgol eraill

Yn y clybiau a leolwyd mewn ysgolion, roedd darparu brechwast yn gysylltiedig â mentrau ieuchyd eraill yn yr ysgolion, fel darparu dŵr yfed ar ddesgiau. Adroddodd pob ysgol eu bod yn annog disgyblion yn



weithredol i beidio â bwyta losin, creision a siocled adeg egwyliau. Sefydlwyd siopau ffrwythau hefyd ym mhob ysgol. Yn un ohonynt defnyddiwyd yr elw o'r siop hon i brynu offer newydd i'r dosbarthiadau, a'r disgyblion oedd yn 'staffio'r' siop ffrwythau.

### 5.3 Taliadau, cyllido a chyfleusterau

Mae Tabl 2 yn dangos y taliadau a godwyd ar ddisgyblion a rhieni ar gyfer y clybiau brechwast. Roedd Clwb 1 yn codi 10c yr eitem, lle'r oedd Clwb 3 yn codi £2.25 ar gyfer y plentyn cyntaf a £1.75 ar gyfer pob brawd neu chwaer.

Ariannwyd Clwb 1 gan yr ysgol. Roedd yn y broses o adnewyddu cyfleuster cymunedol y byddai'r clwb brechwast yn symud iddo o'i leoliad presennol mewn dosbarth.

Sefydlwyd Clwb 2 gan yr ysgol mewn partneriaeth â gwasanaeth arlwyo'r ALI. Roedd y tâl a godwyd yn sicrhau bod cost y staff arlwyo a chostau'r bwyd yn cael eu talu. Pan agorodd y clwb gyntaf adroddodd y pennaeth:

*Mae angen 25 o blant mewn wythnos i wneud y peth yn gost-  
effeithiol ac mi fydden nhw (gwasanaeth arlwyo'r ALI) yn tynnu'r  
cyllid yn ôl os na fyddwn ni'n cyflawni hynny.*

Roedd unrhyw elw yn cael ei gadw gan wasanaeth arlwyo'r ALI ac roedd y clwb yn denu mwy na 25 o ddisgyblion yn rheolaidd.

Ariannwyd Clwb 3 gan y tâl a godwyd ar ddisgyblion yn unig. Roedd y clwb hefyd wedi derbyn grant o £5000 gan Clybiau Plant Cymru ym mis Mawrth 2004. Roedd hyn wedi galluogi'r ysgol i brynu offer arlwyo ac offer arall. Fodd bynnag, adroddodd y pennaeth:

*Er bod peth cyllid ar ôl does dim llawer, ac felly rydym yn  
dymuno ceisio cael mynediad i arian Llywodraeth Cynulliad  
Cymru. Os na chawn ni hynny bydd rhaid i ni godi'r ffioedd a  
dydw i ddim am wneud hynny.*

Roedd Clwb 4 wedi derbyn cyllid cychwynnol gan Raglen Lleoedd Gofal Plant Newydd y Gronfa Loteri Newydd ac roedd costau gweithredu yn cael eu cwrdd drwy'r tâl dyddiol gan blant a rhieni.

## 5.4 Staffio

Roedd Clwb 1 yn cael ei staffio gan ddau oedolyn a gyflogwyd yn yr ysgol mewn rolau eraill fel CCD. Roeddent yn cael eu talu swm ychwanegol am eu rolau yn y clwb brecwast. Roedd un aelod o staff yn paratoi ac yn gweini'r brecwastau tra roedd y llall yn goruchwylio'r disgyblion.

Yng Nghlwb 2 cyflogwyd staff gwasanaeth arlwyo'r ALI ac roedd aelodau o uwch dîm reoli'r ysgol yn gyfrifol am y dyletswyddau goruchwylio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw aelod o staff yr ysgol yn cael eu talu am y dyletswyddau hyn.

Roedd Clwb 3 wedi'i staffio gan aelod o staff y gegin oedd yn paratoi ac yn gweini'r bwyd, tra roedd rhiant lywodraethwr, a oedd hefyd yn CCD, yn goruchwylio'r disgyblion. Roedd Clwb 4 wedi'i staffio gan staff oedd â chymwysterau gwaith chwarae ac yn gweithio yn y clwb brecwast yn unig. Nid oedd unrhyw rai o'r clybiau hyn wedi profi anawsterau wrth recriwtio staff. Roedd Clwb 4 wedi hysbysebu yn ddiweddar am aelod newydd o staff ac wedi derbyn nifer fawr o geisiadau.

Roedd pob clwb wedi gwneud trefniadau i gyflenwi pan fyddai staff yn sâl neu fod unrhyw absenoldeb annisgwyl arall. Os byddai aelod o staff yn sâl yng Nghlwb 3 byddai'r pennaeth yn cynorthwyo wrth oruchwylio'r disgyblion. Yng Nghlwb 2 cafwyd staff cyflenwi o blith y staff arlwyo ac nid oedd y staff addysgu yn ymwneud o gwbl.

Pwysleisiwyd na ddylai'r awyrgylch mewn clwb brecwast fod yr un peth ag awyrgylch ysgol. Roedd hyn yn ystyriaeth allweddol ar gyfer pob un o'r clybiau a leolwyd mewn ysgolion oedd yn pwysleisio yr oedd yn rhaid i'r disgyblion, y rhieni a'r staff nodi'r clwb brecwast fel rhywbeth oedd ar wahân i'r ysgol. Dywedodd un pennaeth '*Ni ddylai fod yn ysgol*

*cyn 9 o'r gloch, mae angen iddo fod yn wahanol i'r ysgol.'* Roedd arweinydd Clwb 4 yn teimlo y byddai staff a gyflogwyd mewn goruchwylwyr yn y Fenter Brecwastau am Ddim yn elwa ar ryw ffurf ar hyfforddiant chwarae lle bo hynny'n briodol, oherwydd *'os yw plant yn diflasu yna gall anawsterau godi.'*

## **5.5 Y brecwast a ddarperir**

Roedd ystod eang o frecwast ar gael yng Nghlybiau 1, 3 a 4. Pwysleisiodd staff y clybiau fod brecwastau iach yn cael eu hybu i ddisgyblion drwy wybodaeth a thrwy'r dewisiadau a gynigiwyd. Teimlwyd bod hon yn elfen allweddol ym mhob un o'r clybiau. Fodd bynnag, roedd Clwb 2 yn darparu ystod fwy cyfyngedig o fwyd. Hwn hefyd oedd y clwb oedd ar agor am y cyfnod byrraf o amser bob dydd.

## **5.6 Cefndir teuluol y disgyblion sy'n cymryd rhan**

Roedd Clwb 2 wedi'i leoli mewn ysgol ddwyieithog gyda nifer o ddisgyblion oedd yn teithio i'r ysgol mewn bws. Roedd y clwb yn darparu'n bennaf ar gyfer y plant hynny a allai gerdded i'r ysgol neu oedd yn cael eu gyrru i'r ysgol. Nid oedd y disgyblion oedd yn cyrraedd mewn bws yn gallu cael mynediad i'r brecwast. Dywedodd y pennaeth:

*Rydym yn gweld ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio gan rai rhieni sy'n gweithio er mwyn caniatáu iddynt ollwng eu plant yma cyn mynd i'r gwaith. Nid dyna oedd y grŵp targed gwreiddiol. Byddai rhai o'r rheiny wedi cael brecwast yn barod. Mewn rhai ffyrdd mae'n fwy o ddigwyddiad cymdeithasol na digwyddiad maeth.*

Roedd yr ysgol, fydd bynnag, hefyd wedi targedu teuluoedd penodol i gymryd rhan yn y clwb

*I lawer o rieni roedd brys mawr y boreau ... roedd un teulu gyda phedwar o blant dan saith ... yn dod i mewn i'r ysgol am 9:20 yn y bore heb frecwast ac felly gadawyd iddynt ddod i'r sesiwn frecwast am ddim a chafodd hynny effaith wirioneddol ar eu presenoldeb a'u prydlondeb. Roeddent yn sefydlog, yn wahanol i'r ffordd yr oeddent o'r blaen.*

Roedd Clwb 1 hefyd yn darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i rai teuluoedd drwy'r clwb brecwast. Fodd bynnag, adroddwyd bod plant o ystod eang o gefndiroedd yn defnyddio'r clwb. Dywedodd Clybiau 3 a 4 eu bod ar y cyfan yn denu plant rhieni oedd yn gweithio. Roedd y rhieni hynny yn defnyddio'r clwb fel gofal plant er mwyn eu galluogi i gyrraedd y gwaith yn gynharach yn y bore. Dywedodd un pennaeth fod rhieni wedi canmol y clwb brecwast drwy holiaduron lle roeddent yn nodi *'mae'n gyfleus ac mae'n ysgafnhau'r pwysau arnynt yn y boreau gyda mwy nag un plentyn'*.

## 5.7 Hyrwyddo

Roedd pob clwb yn defnyddio deunydd hyrwyddo ar ffurf posteri a chylchlythyrau ar ddechrau pob tymor ysgol i'r holl rieni i godi proffil y clwb brecwast. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i Glwb 2 oherwydd bod gan y clwb hwn darged penodol o ddisgyblion i'w denu bob dydd. Roedd Clwb 1 yn adnabod effeithiolrwydd diwrnodau thema wrth ddenu disgyblion newydd i'r clwb, ac roedd diwrnodau digwyddiadau diweddar wedi cynnwys Diwrnod Trowsus Anghywir, Sul y Mamau a brecwastau 'Wimbledon'. Adroddwyd bod nifer uwch o ddisgyblion a rhieni yn mynychu ar yr achlysuron arbennig hyn.

## 5.8 Effaith

Roedd effaith y ddarpariaeth yn amrywio, yn ôl y staff. Ym mhob un, adroddwyd bod lefelau canolbwyntio'r disgyblion hynny oedd yn bwyta brecwast wedi gwella yn ystod y diwrnod ysgol. Roedd un pennaeth yn cydnabod er:

*nad oes asesiadau ffurfiol sy'n gallu rhoi data cymharol i ni, y cwbl a allwn ei wneud yw nodi sylwadau athrawon unigol am ddisgyblion. Mae (y clwb brecwast) yn newid eu gallu i ganolbwyntio ac i ffocysu ar dasgau yn yr ysgol yn well o lawer.*

Nododd y goruchwyliwr yn y clwb hwn:

*Os ydynt yn colli brechwast yna mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrfu ac maent yn anodd eu trin. Mae'n ymddangos bod y brechwast yn gwneud iddynt weithio'n galetach. Mae llawer o'r disgyblion yn fwy sefydlog ac mae gennym rai disgyblion sy'n dod i mewn heb frechwast ac rydym yn rhoi tost neu rawnfwyd iddynt os nad ydynt yn hwylus neu'n dweud nad ydynt yn gallu canolbwyntio.*

Roedd effeithiau eraill y clybiau brechwast yn cynnwys gwell rhyngweithio cymdeithasol rhwng disgyblion. Adroddodd y pennaeth yng Nghlwb 3:

*Mae'r plant yn cyd-fwyta yn agwedd bositif arall ac mae hynny'n brin mewn cymdeithas heddiw ac maent yn eistedd a siarad. Pan fyddant yn cyd-fwyta mae hyd yn oed y rhai nad ydynt mor barod i fwyta yn bwyta mwy gan nad ydynt am gael eu hystyried yn ffyslyd gan y lleill.*

Roedd mathau eraill o effaith yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth o fwyta bwydydd iach a phwysigrwydd brechwastau maethlon ymysg rhai disgyblion. Roedd pob un o'r clybiau yn pwysleisio pwysigrwydd peidio â darparu grawnfwydydd wedi'u gorchuddio â siwgr ond ni adroddwyd unrhyw broblemau mewn perthynas â disgyblion yn derbyn y polisi hwn.

Yng Nghlwb 2 nododd y pennaeth fod darparu clwb brechwast wedi gwella presenoldeb ar gyfer grŵp penodol o ddisgyblion.

## **5.9 Datblygiad yn y dyfodol**

Mynegodd pob un o'r clybiau y cynhaliwyd ymweliad â hwy rai pryderon ynghylch eu cyllid a'u datblygiad yn y dyfodol. Nododd Clwb 4 fod nifer o glybiau brechwast eraill yn eu hardal wedi cau o ganlyniad i sefydlu'r Fenter Brechwast am Ddim. Roedd yr ysgol lle y cynhaliwyd y clwb wedi dechrau cyflwyno darpariaeth yn ddiweddar drwy fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y clwb yn disgwyl y byddai'r niferoedd yn cynyddu ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd.

Roedd Clwb 1 wedi ennill gwobrau am ei ddarpariaeth frecwast ac roedd yn edrych ymlaen yn bositif at ehangu'r Fenter Brecwast am Ddim oherwydd:

*Byddwn yn falch petai'r Cynulliad yn ariannu ein clwb. Rydym yn codi'r hyn y mae ei angen arnom i gwrdd â chost y bwyd ond yr ysgol sy'n talu'r costau staffio. Pe byddai'r Cynulliad yn talu'r costau staffio a bwyd gallai hynny ddenu mwy o ddisgyblion. Nid wyf fodd bynnag yn ystyried bod y taliadau bach yr ydym yn eu codi yn golygu nad yw disgyblion yn dewis y ddarpariaeth.*

Roedd Clwb 2 yn dymuno datblygu'r math a'r ystod o fwyd y gall ei gynnig yn ei glwb brecwast ac yn teimlo ei fod yn eironig bod yr ysgol wedi bod yn rhedeg clwb brecwast

*ers sawl blwyddyn ac y byddem yn hoff cael y cyllid ond nid ydym yn y dalgylch iawn ar gyfer y cyllid ac ni allwn wella, drwy er enghraifft ddarparu grawnfwydydd oherwydd y cyfyngiadau ariannol arnom. Gyda mwy o gyllid gallem ei werthu i fwy o rieni ac i grŵp ehangach o ddisgyblion.*

Roedd Clwb 3 hefyd yn dymuno ymuno â menter Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd y pennaeth:

*byddai'n drueni os ar ôl i ni wneud y penderfyniad i redeg clwb ein hunain efallai bydd yn rhaid i ni aros ar ddiwedd y ciw. Hoffwn dargedu'r disgyblion hynny â'r angen mwyaf am frecwast ac nid ydynt yn y grŵp sy'n defnyddio'r clwb ar hyn o bryd.*

## 5.10 Arfer da

Amlygwyd nifer o feysydd arfer da gan y clybiau yr ymwelwyd â hwy. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ymrwymiad gan staff gweithredol ac uwch reolwyr yn yr ysgol
- mwynhad disgyblion
- cyfleustra i rieni
- darparu ystod eang o fwydydd iach a chytbwys
- amlinellu'r manteision i rieni
- gwneud y clwb yn hollgynhwysol a chaniatáu mynediad i bawb
- darparu amgylchedd cartrefol ond nid anhyblyg

### **Canfyddiadau Allweddol**

Sefydlwyd y clybiau a sefydlwyd y tu allan i fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru oherwydd bod ysgolion wedi nodi'r angen am ddarpariaeth o'r fath yn eu hardaloedd.

Roedd cysylltiadau clir rhwng y clybiau brechwast hynny a mentrau eraill ar lefel ysgolion fel darparu dŵr yfed mewn dosbarthiadau ac ymdrechion eraill i hybu ymwybyddiaeth o ffordd o fyw iach.

Roedd y clybiau hynny fel arfer yn codi tâl am frechwast er bod rhai yn derbyn cymorth grant gan gyrrff allanol.

Roedd darparu brechwast weithiau yn gysylltiedig â chyfleoedd eraill i blant ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer ymarfer, hamdden neu waith cartref, fodd bynnag nid dyma oedd y sefyllfa ym mhob clwb brechwast.

Staff wedi'u lleoli mewn ysgolion oedd fel arfer yn arwain y clybiau brechwast hyn; fodd bynnag, pwysleisiwyd y dylai'r awyrgylch yn y clwb fod yn wahanol i awyrgylch mwy ffurfiol yr ysgol.

Pwysleisiodd y clybiau y dylai'r math o fwyd a ddarperir fod yn iach.

Roedd tystiolaeth ansoddol yn awgrymu bod ystod eang o ddisgyblion yn defnyddio'r clybiau brechwast; gallai'r rhain gynnwys nifer fawr o blant yr oedd eu rhieni yn gweithio.

Defnyddiwyd dulliau ansoddol hefyd i fesur effaith y clybiau; nodwyd canlyniadau positif yn cynnwys gwell canolbwyntio ymysg disgyblion a gwell rhyngweithio cymdeithasol.

Roedd rhai clybiau yn pryderu am gynaliadwyedd ac roedd rhai yn dymuno dod yn rhan o fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru; fodd bynnag, nad oedd ei nodau a'i hamcanion bob amser yn adlewyrchu rhai'r clybiau brechwast ysgol hyn.





## 6. Casgliadau

### 6.1 Manteision brecwastau ysgol

Cafodd yr ymchwil dystiolaeth ansoddol fod darparu brecwast mewn ysgolion wedi effeithio ar y disgyblion oedd yn defnyddio'r ddarpariaeth yn y ffyrdd canlynol:

- disgyblion yn fwy sefydlog yn yr ysgol
- gwell sgiliau cymdeithasol ymysg disgyblion
- gwell perthnasoedd rhwng staff a disgyblion
- gwell ymddygiad
- gwell presenoldeb a phrydlondeb gan rai disgyblion
- gwell canolbwyntio gan rai disgyblion
- gwell awyrgylch yn yr ysgol.

### 6.2 Nodweddion allweddol cyflwyno effeithiol ym menter Llywodraeth Cynulliad Cymru

Nododd yr ymchwil nifer o ffactorau oedd yn cyfrannu at gyflwyno menter brecwastau ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn effeithiol. Y rhain oedd:

- y defnydd o staff arlwy'o'r ALI oedd eisoes wedi'u cyflogi yn yr ysgol
- agweddau positif tuag at y ddarpariaeth gan benaethiaid
- cyfathrebu dwy ffordd effeithiol rhwng ysgolion ac ALLau
- dewisiadau bwyd syml
- y defnydd o gyflenwyr y mae ALLau yn caffael bwyd ganddynt eisoes
- y defnydd o staff goruchwylio a gyflogir eisoes yn yr ysgol
- integreiddio'r rhaglen i mewn i fentrau ehangach yr ALI, fel y rheiny a anelir at hybu arferion bwyta'n iach
- cyfraniad ALLau wrth ddarparu cefnogaeth effeithiol i ysgolion

- sicrhau bod y plant yn adnabod yr oedolion oedd yn gyfrifol am y goruchwylio a bod yr oedolion hynny yn deall ethos yr ysgol
- monitor presenoldeb disgyblion yn ofalus er mwyn nodi a oedd y rheiny fyddai'n elwa fwyaf yn manteisio ar y cyfle
- darparu cyfleoedd i ddisgyblion i chwarae ar ôl iddynt fwyta brechwast
- sicrhau bod y materion yn ymwneud â ffordd o fyw iach yn cael eu trafod gyda disgyblion, yn cynnwys materion fel peryglon gordewdra.

### **6.3 Heriau i gyflwyno menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yn effeithiol**

Roedd nifer o ymatebwyr yn ystyried bod lefel y staff goruchwylio yn is o'i chymharu â lefelau goruchwylio eraill mewn ysgolion a galwyd am gynnydd yn y staff goruchwylio er mwyn darparu mwy o weithgareddau i ddisgyblion ar ôl iddynt fwyta.

Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a oedd y fenter yn cyrraedd y disgyblion hynny yr oedd ALLau a'r ysgolion yn teimlo y byddent yn elwa fwyaf o'r ddarpariaeth.

Ystyriwyd gan nifer o ymatebwyr oedd â phrofiad gweithredol o gyflwyno brechwastau ysgol nad oedd yr awr a ganiatawyd i'r staff arlwyio baratoi, gweini a chlirio'r ddarpariaeth frechwast yn ddigonol.

Adroddodd rhai ALLau fod y lefelau tâl ar gyfer staff arlwyio yn is na'r rheiny a ddefnyddiwyd ar gyfer staff arlwyio yn ystod darparu pryddau ysgol eraill ac roedd hyn yn creu problemau wrth recriwtio a chadw staff.

Roedd y lefelau tâl a gynigiwyd i oruchwylwyr a'r oriau cyfyngedig yr oeddent yn cael eu contractio i weithio yn golygu ei fod yn anodd recriwtio a chadw staff o'r fath mewn rhai ardaloedd.

Roedd ysgolion yn ei chael yn anodd mesur effaith y brechwast ar ddisgyblion mewn ffordd feintiol, oherwydd natur ansoddol llawer o'r dystiolaeth. Roedd bwyta brechwast yn yr ysgol yn esgor ar ystod o

ganlyniadau ond roedd weithiau'n anodd gwahanu dylanwad brecwast rhag ffactorau eraill.

#### **6.4 Darpariaeth frecwast ac eithrio darpariaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Roedd rhan fwyaf y clybiau a sefydlwyd y tu allan i fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u hysbrydoli gan athroniaeth debyg, sef dymuniad i sicrhau fod disgyblion yn bwyta brecwast, ymwybyddiaeth o'r manteision academaidd a chymdeithasol, a'r angen i hybu ffyrdd o fyw mwy iach.

Roedd ysgolion y tu allan i fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cysylltu'r brecwast â mentrau hybu iechyd eraill, gan adlewyrchu'r rheiny yn y rhaglen beilot.

O ganlyniad i gyllid cyfyngedig, roedd yn rhaid i glybiau y tu allan o'r rhaglen frecwast beilot godi ffi; ni ystyriwyd hyn yn rhwstr mawr gan fwyafrif y rhai oedd yn ymwneud â chlybiau brecwast.

Gallai clybiau brecwast fod yn rhan o ymdrech llawer ehangach i ymestyn darpariaeth wedi'i leoli yn yr ysgol i blant; er bod y clybiau wedi'u lleoli ar safle ysgolion roedd yr awyrgylch yn ymlaciedig ac yn anffurfiol.

Roedd teimlad cryf y dylai'r bwyd a ddarperir fod yn iach ac y dylid defnyddio'r cyfle i atgyfnerthu'r negeseuon yr oedd ysgolion yn eu hybu am ffyrdd o fyw iach; roedd hyn yn adlewyrchu agwedd bwysig o'r canllawiau a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Nododd y dystiolaeth ansoddol fod yr ystod o ddisgyblion a gyrhaeddwyd drwy'r brecwast am ddim yn debyg i'r hyn oedd yn cael ei gyrraedd gan ysgolion oedd wedi'u cynnwys yn y prosiect peilot; fodd bynnag roedd diffyg tystiolaeth bendant am gefndir disgyblion yn golygu ei fod yn amhosib meintoli hyn ac argraffiadol oedd y dystiolaeth.

Roedd tystiolaeth ansoddol yn nodi bod effaith brecwast ar faterion fel canolbwyntio gan ddisgyblion, rhyngweithio cymdeithasol ac ymwybyddiaeth o faeth yr un peth ym mhob ysgol oedd yn darparu brecwast, p'un a oeddent yn rhan o beilot Llywodraeth Cynulliad Cymru ai peidio.

## 6.5 Ehangu menter Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol

Mae angen archwilio a ellid cynyddu rôl cyflenwyr lleol er mwyn sicrhau bod y bwyd a ddarperir mor ffres â phosib.

Mae angen mynd i'r afael â materion trafndiaeth ar gyfer ysgolion gwledig, ffydd a chyfrwng Cymraeg er mwyn ymateb i dalgylchoedd ehangach yr ysgolion hyn o'u cymharu â'r ysgolion peilot.

Gallai fod anhawster wrth recriwtio a chadw staff goruchwylio ac arlwyo os bydd nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn cynyddu'n sylweddol.

Dylid adolygu'r ystod o fwydydd a ellir eu fforddio o fewn y cyllid a ddarperir i ALLau.

Mae angen archwilio a ellid darparu ystod o weithgareddau i ddisgyblion ar ôl iddynt fwyta brecwast yn yr ysgol; er bod hyn y tu allan i gylch gorchwyl menter brecwastau ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gellid ei gysylltu â llinynnau polisi eraill, fel ysgolion estynedig.

Mae angen cyllid ar ALLau i weinyddu'r cynllun ac i gasglu data e.e. ar bresenoldeb, cyfranogiad, ac effaith. Dylai ALLau a Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio sut y gellir defnyddio'r data a gasglwyd i'r eithaf; dylai canlyniadau trafodaethau o'r fath hysbysu arweiniad manwl i ALLau.

Mae angen ystyried heriau cyflwyno'r fenter mewn ysgolion heb gyfleusterau cegin dynodedig o fewn cyd-destun ehangach arlwyo ysgolion/darparu prydau ysgol.

Mae angen i ALLau a rhanddeiliaid eraill fel Byrddau Iechyd Lleol adeiladu ar eu harfer da wrth ddatblygu ystod eang o strategaethau i hybu ymwybyddiaeth o'r berthynas rhwng iechyd, lles a maeth, o fewn ysgolion a'r gymuned ehangach.

Dylid lledaenu arfer da ar sut y gall brecwastau ysgol gysylltu â strwythurau/prosiectau cysylltiedig â iechyd eraill mewn ysgolion ac ALLau mor eang â phosib.



## Cyfeiriadau

ANI, C. a GRANTHAM-McGREGOR, S. (1999). 'The effects of breakfast on children's educational performance, attendance and classroom behaviour.' Yn: DONOVAN, N. a STREET, C. (Gol) *Fit for School: How Breakfast Clubs Meet Health, Education and Childcare Needs*. Llundain: New Policy Institute. Nodwyd yn: SIMPSON, D. (2001). 'The impact of breakfast clubs on pupil attendance and punctuality', *Research in Education*, **66**, 76–83.

BALDING, J. (2000) 'Food choices and weight control.' Yn: BALDING, J. (gol) *Young People in 2000*. Exeter: Prifysgol Exeter, Uned Iechyd Ysgolion.

BENNATHAN, M. a BOXALL, M. (2000). *Effective Intervention in Primary Schools. Nurture Groups*. 2<sup>il</sup> rifyn. Llundain: David Fulton.

Y GORFFORAETH DDARLLEDU BRYDEINIG (2003). 'Free breakfasts in schools', *BBC News* [arlein]. Ar gael: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/3258975.htm> [21 Hydref, 2005].

BRITISH NUTRITION FOUNDATION (2005). *Breakfast Clubs: What is a Breakfast Club?* [arlein]. Ar gael: <http://www.nutrition.org.uk/home.asp?siteId=43&sectionId=518&subSubSectionId=356&subSectionId=310&parentSection=300&which=4#962> [20 Hydref, 2005].

BRO, R.T., SHANK, L.L., McLAUGHLIN, T.F. a WILLIAMS, R.L. (1996). 'Effects of a breakfast program on on-task behaviors of vocational high school students', *Journal of Educational Research*, **90**, 2, 112–15.

BRO, R.T., SHANK, L.L., WILLIAMS, R.L. a McLAUGHLIN, T.F. (1994) 'The effects of an in-class breakfast program on attendance and on-task behavior of high school students', *Child and Family Therapy*, **16**, 3, 1–8.

BUPA (2005). *BUPA Initiatives: Blatchington Mill School Breakfast Club* [arlein]. Ar gael: [http://www.bupa.co.uk/about/html/community/initiatives/blatchington\\_mill.html](http://www.bupa.co.uk/about/html/community/initiatives/blatchington_mill.html) [21 Hydref, 2005].

CASSELS, J. a STEWART, R. (2002). *Breakfast Service Provision for School Aged Children: a Mapping Exercise*. Caeredin: Bwrdd Addysg Iechyd yr Alban.

YR ADRAN IECHYD (2005). *Healthier Breakfast Clubs* [arlein]. Ar gael: [http://www.dh.gov.uk/PolicyAndGuidance/HealthAndSocialCareTopics/FoodInSchools/FoodInSchoolsGeneralInformation/FoodInSchoolsGeneralArticle/fs/en?CONTENT\\_ID=4080825&chk=WYJavN](http://www.dh.gov.uk/PolicyAndGuidance/HealthAndSocialCareTopics/FoodInSchools/FoodInSchoolsGeneralInformation/FoodInSchoolsGeneralArticle/fs/en?CONTENT_ID=4080825&chk=WYJavN) [20 Hydref, 2005].

DONOVAN, N. a STREET, C. (Gol) (1999). *Fit for School: How Breakfast Clubs Meet Health, Education and Childcare Needs*. Llundain: New Policy Institute.

GILLIGAN, R. (1999). 'Enhancing the resilience of children and young people in public care by mentoring their talents and interests', *Child and Family Social Work*, **4**, 187–96.

HARROP, P. a PALMER, G. (2002). *Improving Breakfast Clubs: Lessons from the Best*. Llundain: New Policy Institute.

LUCAS, P. (2003). *Breakfast Clubs and School Fruit Schemes: Promising Practice. What Works for Children Group* (Tystiolaeth Nugget Ebrill 2003) [arlein]. Ar gael:  
[http://www.whatworksforchildren.org.uk/online\\_reading/breakieclubs/breakfastclub\\_read.htm](http://www.whatworksforchildren.org.uk/online_reading/breakieclubs/breakfastclub_read.htm) [20 Hydref, 2005].

MARSH, P. a CROWE, G. (1998). *Family Group Conferences in Child Welfare*. Rhydychen: Blackwell Science.

Y WEINYDDIAETH AMAETH, PYSGODFEYDD A BWYD (2000). *National Food Survey 1999: Annual Report on Food Expenditure, Consumption and Nutrient Intakes*. Llundain: Y Llyfrfa

NEW POLICY INSTITUTE (2000). *Breakfast Clubs: a How to .... Guide* [arlein]. Ar gael:  
<http://www.npi.org.uk/reports/breakfast%20clubs%20how%20to%20guide.pdf> [21 Hydref, 2005].

SHAW, M.E. (1988). 'Adolescent breakfast skipping: an Australian study', *Adolescence*, **33**, 851–61.

SHEMILT, I., O'BRIEN, M., THOBURN, J., HARVEY, I., BELDERSON, P., ROBINSON, J. a CAMINA, M. (2003). 'School breakfast clubs, children and family support', *Children & Society*, **17**, 2, 100–12.

SIMPSON, D. (2001). 'The impact of breakfast clubs on pupil attendance and punctuality', *Research in Education*, **66**, 76–83.

SIMPSON, D., SUMMERBELL, C., CROW, R. a WATTIS, L. (2003). 'School breakfast clubs, social background and nutritional status?' *TOPIC*, Rhifyn 29, Eitem 10.

STREET, C. a KENWAY, P. (1999). *Food for Thought: Breakfast Clubs and their Challenges, 1999*. Llundain: New Policy Institute.

STREET, N. (1999). 'Introduction.' Yn: DONOVAN, N. a STREET, C. (Gol) *Fit for School: How Breakfast Clubs Meet Health, Education and Childcare Needs*. Llundain: New Policy Institute. Nodwyd yn: SIMPSON, D. (2001). 'The



---

impact of breakfast clubs on pupil attendance and punctuality', *Research in Education*, **66**, 76–83.

TEACHERNET (2005a). *The Breakfast Club* [arlein]. Ar gael: <http://www.teachernet.gov.uk/CaseStudies/casestudy.cfm?&id=247&subcatid=88&catid=74> [20 Hydref, 2005].

TEACHERNET (2005b). *Improving Performance Through Breakfast Clubs* [arlein]. Ar gael: <http://www.teachernet.gov.uk/casestudies/casestudy.cfm?id=61&catid=27&subcatid=28> [20 Hydref, 2005].

TERRY, S. a KERRY, K. (2000). *Classroom Breakfast: Helping Maryland Students Make the Grade*. Baltimore, MD: Maryland State Department of Education.

PRIFYSGOL DWYRAIN ANGLIA (2002). *National Evaluation of School Breakfast Clubs*. Norwich: Prifysgol Dwyrain Anglia.

WATSON, C. a MARR, C. (2003). 'A breakfast club for children with emotional and behavioural difficulties', *Education 3-13*, **31**, 3, 15–18.

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2003). *Free Breakfast for All Primary School Children* (Datganiad i'r Wasg) [arlein]. Ar gael: [http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news\\_details.asp?NewsID=1023](http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news_details.asp?NewsID=1023) [21 Hydref, 2005].

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2004a). *Minister Starts Her Day the Healthy Way* (Datganiad i'r Wasg) [arlein]. Ar gael: [http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news\\_details.asp?NewsID=1197](http://www.learning.wales.gov.uk/scripts/fe/news_details.asp?NewsID=1197) [20 Hydref, 2005].

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2004b) *Primary School: Free Breakfast Initiative* [arlein]. Ar gael: <http://www.learning.wales.gov.uk/breakfast/background-e.htm> [20 Hydref, 2005].